# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2003 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

### Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr B. Blakeley, S. Drew, K.N. Hawkins, N. Hugh-Jones, M.M. Jones a R. Ll. Williams

### Yn cynrychioli Cyd-bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych

I. Barros-Curtis, R. Evans (dirprwy ar ran y Chwaer Elizabeth Kelly) a M.B. Lloyd

### Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Y Parch. J. Owen (Cadeirydd), T. Bryer, H. Ellis, J. Gibson a S. Harris

### Aelodau cyfetholedig

T. ap Sion (dirprwy ar ran y Parch. Athro L.J. Francis)

## HEFYD YN BRESENNOL

Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a Swyddog Gweinydol (K.E. Jones)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Parch. P.J. Collinson, M. Colbert, M. Evans, J. Hannam, J. Kirkham a'r Cynghorydd W. Roberts

## MYFYRDOD DISTAW

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod distaw.

## CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd B. Blakeley a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o CYSAG Sir Ddinbych a Rhian Ellis, aelod yn mynychu fel dirprwy ar ran y Chwaer Elizabeth Kelly. Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod fod Jennifer Gibson yn mynychu ei chyfarfod olaf o CYSAG Sir Ddinbych a diolchodd iddi am ei chyfraniad gwerthfawr dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (y Crynwyr) yn cael eu cynrychioli gan Peter Spiers yn y cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2003 (a ddosbarthwyd yn flaenorol), fel a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 3 Mehefin 2003.

**Materion yn codi**

Tudalen 3 - Eitem rhif 577 – Cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei fod wedi codi'r mater o gyflwyno canllawiau i arolygwyr cofrestredig (o ran cynnwys a chwblhau adroddiadau arolygiad) gyda'r AEM Paul Morgan ond nid oedd wedi derbyn ymateb hyd yma. Cadarnhaodd y byddai'n mynd ar drywydd y mater ac adrodd yn ôl i'r aelodau am hynny.

Tudalen 9 - Etem 1103: Penderfyniad (b) - Adroddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG, er gwaethaf nodiadau atgoffa, mai dim ond tair ysgol uwchradd oedd wedi ymateb i'w lythyr yn gofyn am fynegi diddordeb mewn Fforwm Ffydd Pobl Ifanc. Serch hynny, roedd y tair ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol ac roedd yr adborth yn arwyddo fod gan y disgyblion eu hunain ddiddordeb mewn cynnal deialog ond y dylai gael ei seilio ar drafodaeth agored. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG barhau i fwrw ymlaen â'r mater hwn fel bo'n briodol. Cynghorodd y Cynghorydd S. Drew fod Garth Thomas, Swyddog Ieuenctid Sir Ddinbych, yn y broses o sefydlu Fforymau Ieuenctid yn ysgolion y sir ac awgrymodd y dylai'r Fforymau Ieuenctid ystyried y mater hwn yn eu cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG i gysylltu â Mr. Thomas yn uniongyrchol ynghylch hyn.

***PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion.*

## 3 PROFIADAU CRISTNOGAETH – DIWRNODAU DISGYBLION EGLWYS GADEIRIOL LLANELWY

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG adroddiad ar lafar, gyda chymorth gliniadur a sleidiau, ar y diwrnodau Profiadau Cristnogaeth i ddisgyblion a gynhaliwyd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ar 10 a 12 Mehefin 2003.

Roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn falch o adrodd fod y ddau ddiwrnod wedi bod yn werthfawr iawn, gan roi profiadau cadarnhaol o Gristnogaeth i'r disgyblion yn ogystal â'u cynorthwyo gyda'u dysgu a thalodd deyrnged i bawb fu'n ymwneud â'r archlysur ac a sicrhaodd ei lwyddiant. Arweiniodd yr aelodau drwy ddigwyddiadau'r diwrnod gan gynghori bod sesiwn y bore wedi cynnwys tair rhan: Ymchwilio i Symboliaeth Cristnogol, Ymchwilio i Addoliad Cristnogol ac Ymchwilio i'r Beibl Cristnogol. Cynhaliwyd chwe gweithdy yn sesiwn y prynhawn wedi ei seilio ar Y Daith Gristnogol, Bedyddio, Derbyn, Cymundeb, Iachau a Galwad gyda gwasanaeth o addoliad i gloi'r diwrnod. Roedd disgyblion uwchradd a chynradd wedi cael yr un budd a mwynhad o'r dyddiau hyn.

Wrth gloi ei gyflwyniad, cyfeiriodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG at lythyrau a negeseuon e-bost a dderbyniodd gan athrawon yn canmol y ddarpariaeth ac yn holi ynglyn âr posibilrwydd o gynnal achlysuron tebyg yn y dyfodol.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad gan fynegi eu boddhad fod y diwrnodau disgyblion wedi bod mor llwyddiannus. Aeth yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ymlaen i ymateb i gwestiynau'r aelodau am y digwyddiadau, gan gyfeirio'n benodol at drafodaethau, meddyliau a dirnadaeth y disgyblion drwy gydol y diwrnod. Wrth dderbyn yr adroddiad manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG a phawb fu'n ymwneud â'r achlysur i'w wneud yn brofiad mor bositif.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r adroddiad llafar gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

## 4 CYFLWYNIAD: ACCAC – DEUNYDDIAU ASESU DEWISOL AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG gyflwyniad *PowerPoint* ar Ddeunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Addysg Grefyddol. Cyflwynwyd yr un cyflwyniad i CYSAG Cymru gan Denize Morris, Swyddog Addysg

Grefyddol ACCAC. (Dosbarthwyd copi o sleidiau'r cyflwyniad ynghyd â dau becyn deunyddiau asesu dewisol drafft ar Ddathliadau – Y Pasg (CA2) ac Addoliad – Y Cymun (CA3) i'r aelodau gyda phapurau'r cyfarfod.)

Cyfeiriodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG at adolygiad y Maes Llafur Addysg Grefyddol a'r disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol a oedd yn hanfodol wrth gynhyrchu Deunyddiau Asesu Dewisol. Esboniodd fod y Deunyddiau Asesu Dewisol wedi'u dylunio i gefnogi asesu disgyblion yng Nghymru drwy ddarparu adnoddau, gweithgareddau a strategaethau addysgol i athrawon yn ogystal ag enghreifftiau o waith disgyblion â sylwadau yn dangos sut roedd asesiad yn cyfateb i'r disgrifiadau lefel. Er mwyn datblygu Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Addysg Grefyddol roedd cynrychioliwyr o bob AALl wedi cyfarfod i awgrymu testunau priodol i'w cynnwys, ac o ganlyniad i hyn roedd y testunau a ganlyn wrthi'n cael eu datblygu:-

- Cyfnod Allweddol 2: Addoliad - Shabbat; Y Byd Naturiol, Dathliadau – Y Pasg; Llyfrau Sanctaidd - Qur'an, a

- Cyfnod Allweddol 3: Addoliad – Y Cymun Bendigaid; Pererindod - Hajj; Dathliadau – Y Pasg; a Chwestiynau Sylfaenol

Gellir defnyddio'r Deunyddiau Asesu Dewisol ar unrhyw bwynt mewn cyfnod allweddol at wahanol ddibenion asesu – dysgu, dibenion diagnostig neu i ddarparu darlun cronnus, ond roedd yn bwysig nodi na ddylid defnyddio darnau unigol o waith fel yr unig dystiolaeth ar gyfer asesiad ffurfiol.

I gloi nododd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod Denize Morris yn awyddus i ddosbarthu'r Deunyddiau Asesu Dewisol i ysgolion yn ystod Tymor yr Hydref ond byddai hyn yn dibynnu'n llwyr ar ei llwyth gwaith. Atgoffodd yr aelodau ei fod wedi ysgrifennu at John Valentine, Prif Weithredwr ACCAC, fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, yn gofyn iddo ystyried gwneud y swydd yn benodiad amser llawn neu benodi unigolyn i gynorthwyo Mrs. Morris yn ystod prosiectau fel y ddogfen hon. Roedd Mr. Valentine wedi ymateb gan nodi y byddai'r mater yn cael ei ystyried pan adolygir y rhaglenni gwaith y tro nesaf.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol atebodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG gwestiynau'r aelodau ynghylch asesu gwaith disgyblion a'r canllawiau a ddarperir yng nghyswllt hyn ynghyd â'r opsiynau ar gyfer astudio AG yn

y cwricwlwm. Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth a:-

***PHENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r cyflwyniad gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

## 5 ESTYN

### (a) Rhannau o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygwr

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ddarnau o Adroddiad Blynyddol Prif Arolygwr Ei Mawrhydi - Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2001 – 2002 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cynnwys agweddau fel y Cwricwlwm Cymreig; ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a chyfle cyfartal a pharchu'r gwahaniaethau rhwng pobl.

Aeth yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ymlaen i dynnu sylw at rai meysydd yn yr adroddiad i'w cymharu ag ysgolion Sir Ddinbych a nododd:-

- bod rhai o ysgolion Sir Ddinbych wedi cwtogi'r dyraniad amserlen i AG o un awr i 50 munud a bod angen i ysgolion edrych ar ffyrdd o gyflwyno'r cwricwlwm AG llawn o fewn y cyfyngiadau hyn;

- mae holl ysgolion Sir Ddinbych yn darparu AG fel gofyniad statudol a dim ond yn y chweched dosbarth, pan ddilynir cyfuniad penodol o bynciau, y gall rhai disgyblion ei chael yn anodd mynychu AG;

- roedd ACCAC yn y broses o gynhyrchu deunyddiau i helpu AG gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig;

- ymddengys bod mwyafrif ysgolion Sir Ddinbych yn ymdrin ag ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn gydag ysgolion yn cael eu canmol yn aml am yr arferion hyn;

- weithiau nid yw gweithredoedd addoli ar y cyd mor ysbrydol ag y gallent fod gyda rhai athrawon yn cael anawsterau yn y maes hwn; pan ganfuwyd fod hyn yn fater a oedd yn peri pryder yn Sir Ddinbych roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i alluogi hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion;

- yn 35 o'r 63 ysgol a arolygwyd yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf roedd addoli ar y cyd wedi bod yn fater allweddol yr oedd angen i ESTYN ymdrin ag ef a chyfeiriodd yr Arolygwr/ Ymgynghorydd AG at yr anhawster a natur anodd darparu ansawdd uchel a datblygiad ysbrydol bob diwrnod yn ystod y flwyddyn ysgol, a

- nawr roedd yn ofyniad statudol i ysgolion fod â pholisi ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac roedd ysgolion Sir Ddinbych wedi eu canmol am hyn.

Wrth ystyried yr adroddiad, ac yn enwedig yr addoli ar y cyd, cyfeiriodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG at yr anawsterau mae ysgolion yn ei wynebu o ran y maes hwn ac adroddodd am yr arweiniad, deunyddiau ac adnoddau a ddarperir i ysgolion ar gyfer hyn ynghyd â'r cyrsiau mewnol i athrawon dosbarth ynghylch ffyrdd o gyflwyno sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon yn ystod y cyfnod cofrestru. Croesawodd y Cadeirydd y ffyrdd cadarnhaol o gynorthwyo ysgolion i oresgyn yr anawsterau hyn a nodwyd gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a chydnabu'r aelodau gyflawniadau ysgolion Sir Ddinbych yn bodloni'r gofynion statudol er gwaetha'r amgylchiadau anodd. Hefyd mynegodd yr aelodau eu pryderon blaenorol o ran diffygion y broses arolygu nad oedd yn adlewyrchu'r cyflawniadau hynny mewn ysgolion yn gywir.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r darnau o Adroddiad Blynyddol Prif Arolygwr Ei Mawrhydi - Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2001 - 2002 ynghyd â'r adroddiad ar lafar ynghylch sefyllfa Sir Ddinbych mewn perthynas ag ysgolion eraill yng Nghymru.*

(b) **Fframwaith Newydd Arolygu Drafft – Goblygiadau i Addysg Grefyddol a CYSAGau**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi crynodeb o'r prif newidiadau yn deillio o'r canllawiau drafft ar gyfer Arolygu Ysgolion Uwchradd – Medi 2004 fel a ganlyn:-

- cyflwyno tri math o arolygiad: Llawn, Safonol a Byr;

- cynnwys 'aseswyr cymheiriaid' i'w dynodi i bob arolygiad ysgol;

- cynnwys 'enwebeion' lle byddai ysgolion yn cael eu gwahodd i ddethol aelod o staff i weithio â'r tîm arolygwyr;

- pwyslais ar adroddiad hunan werthuso'r ysgol ei hun yn canolbwyntio ar safonau, ansawdd yr addysg ac arweinyddiaeth a rheoli;

- gwrando ar ddysgwyr lle byddai disgwyl i ysgolion fod â threfniadau i ymateb i safbwyntiau a phryderon disgyblion;

- ymateb i'r adroddiad drwy roi gwahoddiad i ysgolion gyflwyno ymateb i'r adroddiad arolygiad a'i gynnwys ynddo;

- manylion am y newid graddau o gymharu â'r rhai cyfredol;

- cyflwyno adborth i athrawon yn ystod y broses arolygiad;

- manylion am y saith cwestiwn allweddol yn y fframwaith arolygiad, ac

- argymhellion yn lle materion allweddol i'w gweithredu yn cynnwys cyfeirio at unrhyw faterion lle nad oedd arfer yr ysgol wedi cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol fel yr addoliad dyddiol.

Yn ystod ei gyflwyniad ar y newidiadau uchod rhoddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fanylion am oblygiadau hyn i'r Cynghorau Ymgynghorol Safonol Addysg Grefyddol, Arolygwyr ESTYN ac ysgolion ynghyd â'i bryderon ynghylch agweddau penodol y newidiadau arfaethedig i'r broses arolygu. Cynghorodd yr aelodau y byddai gwaith CYSAG ei hun o ran monitro safonau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng adroddiadau arolygiad yn cael ei effeithio'n ddifrifol dan y broses arolygu newydd gan y gallai AG fod yn nodwedd yn adroddiadau arolygiad un neu ddwy o ysgolion yn unig yn ystod unrhyw flwyddyn. Meysydd eraill a oedd yn peri pryder oedd y newid graddau o gymharu â'r rhai cyfredol; yr effaith andwyol potensial o ddarparu adborth manwl i athrawon yn ystod y broses arolygu a'r cyfyngiadau amser ar arolygwyr yn ystod y broses honno; ac is-raniadau cymhleth y saith cwestiwn allweddol. Roedd yr aelodau'n cytuno'n llwyr â barn yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a mynegwyd pryderon am sefyllfa athrawon a enwebir mewn ysgolion. Cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei fod eisoes wedi mynegi ei bryderon ei hun i'r AEM Paul Morgan a chytunodd yr aelod i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ymateb i'r canllawiau drafft yn ffurfiol ar ran CYSAG Sir Ddinbych gan gofnodi'r pryderon hyn. Yn dilyn trafodaeth lawn a manwl, lle manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i holi cwestiynau i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ynghylch y broses arolygu a'r goblygiadau

cysylltiedig, cynigiodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones y dylid gofyn i ESTYN drefnu cynhadledd i alluogi cynrychiolwyr CYSAG o bob un o awdurdodau lleol Cymru i gyfarfod a thrafod eu pryderon am y ddogfen canllawiau drafft. Cytunodd yr aelodau â'r cynnig hwnnw'n unfrydol a:-

***PHENDERFYNWYD*** *YN UNOL Â HYNNY.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG am ddwyn y mater pwysig hwn i sylw'r aelodau, yn enwedig gan na ddosbarthwyd y ddogfen gan Estyn at ddibenion ymgynghori.

**6 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

**CYSAG CYMRU – 27 Mehefin 2003**

Adroddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar lafar fod CYSAG Cymru wedi cael cyflwyniad ar ffyrdd o gyflwyno Addysg Grefyddol yn effeithiol yn y blynyddoedd cynnar gan Mrs. Mary Parry a Gill Vaisey yn dwyn y teitl 'Y Blynyddoedd Cynnar' a bu'n sesiwn rhyngweithiol a fwynhawyd yn fawr iawn. Roedd Mrs. M.B. Lloyd, Cadeirydd CYSAG Cymru a'r Cynghorydd M.M. Jones yn cynrychioli CYSAG Sir Ddinbych yn y cyfarfod hwnnw.

Yna hysbysodd Mrs. M.B. Lloyd yr aelodau am yr ail gyflwyniad ar 27 Mehefin gan Mr. Dick Powell, RETRI a chyfeiriodd at bamffledyn roedd hi wedi ei ddosbarthu yn y cyfarfod yn ymwneud â hyn, sef 'Addysgu AG – Addysgu Addysg Grefyddol'. Cyflwynodd grynodeb i'r aelodau am weithgareddau'r Gymdeithas a'r Pwyllgor Gwaith ers y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn:-

- cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Pwyllgor Gwaith a Ms. Jane Davidson, Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, pan nododd y byddai AG yn parhau'n ofyniad statudol;

- dirprwyaeth o'r Pwyllgor Gwaith wedi cwrdd â chynrychiolydd Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru i drafod codi proffil AG ac ymdrin â'r diffyg adnoddau;

- yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd CYSAG Cymru, roedd hi wedi cyfarfod â chynrychiolydd o ELWa i drafod cyllido AG ôl-16, ac

- ar argymhelliad y Gweinidog agorwyd trafodaethau rhwng y Gymdeithas a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yn ogystal ag ACCAC a NAPfRE ynghylch datblygu adnoddau addysgu a dysgu.

Yn olaf, cynghorodd Mrs. Lloyd yr aelodau fod Denize Morris wedi hysbysu CYSAG Cymru ei bod yn dymuno trefnu cyfarfod ym mis Medi â chynrychiolwyr CYSAG i adolygu'r canllawiau ar gyfer ysgrifennu'r Adroddiad Blynyddol CYSAG a gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau i'r cynnig hwn. Esboniodd Mrs. Lloyd y byddai ACCAC yn cysylltu â phob CYSAG i ofyn am gynrychiolwyr i fynychu'r cyfarfod ym mis Medi a chynigiodd y dylid enwebu'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG i gynrychioli CYSAG Sir Ddinbych yn y cyfarfod hwnnw. Cytunodd yr aelodau â'r cynnig a ***PHENDERFYNWYD*** *YN UNOL Â HYNNY*.

Roedd y Cynghorydd M.M. Jones wedi bod yn falch o fynychu'r cyfarfod CYSAG Cymru diwethaf a thalodd deyrnged i'r gwaith a gyflawnwyd gan CYSAG Cymru a Mrs. Lloyd yn ei rôl fel Cadeirydd CYSAG Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiadau llafar gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Mrs. M.B. Lloyd.*

## 7 DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y bydd cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. Ddydd Iau, 16 Hydref 2003, yn Siambr y Cyngor, Ty Nant, Prestatyn.

Wrth gloi'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG am y gwaith a gyflawnodd ar ran y Cyngor a diolchodd i bawb oedd yn bresennol am fynychu'r cyfarfod a'u cyfraniadau cadarnhaol i'r trafodaethau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.

**********

Eitem Agenda Rhif 6

# DRAFFT

## Adroddiad Blynyddol

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol
Sir Ddinbych

2002 - 2003

**Adroddiad Blynyddol**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol**
**Sir Ddinbych**

**2002 – 2003**

**CYNNWYS**


| | | | Tudalen |
|---|---|---|---|
| | Yr Adroddiad | | 1 -9 |
| Atodiadau: | I | Dyddiadau Cyfarfodydd | 10 |
| | II | Aelodaeth CYSAG | 10 - 11 |
| | III | Rhestr y mudiadau sy’n derbyn yr adroddiad | 11 |
| | IV | Tablau Canlyniadau Arholiad | 12 – 21 |
| | V | Archwilio Cristnogaeth – Dyddiau Profiad Disgyblion | 22 - 24 |

**Adroddiad Blynyddol**

**Cyngor Sefydlog Ymgynghorol Addysg Grefyddol**
**Sir Ddinbych**

**2002 – 2003**

## (a) Y Maes Llafur Cytunedig

Cafodd y Maes Llafur diwygiedig groeso da yn yr ysgolion ac mae athrawon wedi croesawu'r defnyddiau arweiniol atodol a'r taflenni cynllunio sy'n cefnogi ei weithrediad. Mae'r pecyn 'Arweiniad ar Asesu mewn Addysg Grefyddol' wedi'i ddosbarthu i'r holl ysgolion, gan gynnig iddynt arweiniad cyffredinol ar Asesu ym maes AG yn ogystal â chymorth i egluro union natur y Lefelau Cenedlaethol mewn perthynas â gofynion y Maes Llafur Cytunedig, enghreifftiau o safonau fel y gwelir hwy mewn samplau o waith plant [wedi'u hanodi yn erbyn y Disgrifiadau Lefel] a modelau o gofnodi cyrhaeddiad mewn AG.

Yn ogystal, derbyniodd yr ysgolion ddeunydd arweiniol ychwanegol ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a 2 ar ffurf cynlluniau gwersi, amlinelliad o gynlluniau a defnydd ar ffurf taflenni gwaith.

Gobeithid y byddai lefel y gefnogaeth i athrawon yn cael ei gynnal trwy Gyd-Weithgor yr Athrawon, ac ar sail cefnogaeth Cronfa Ymddiriedolaeth St Gabriel.

## (b) Safonau mewn Addysg Grefyddol

Dim ond chwech o adroddiadau ar arolygiadau ysgolion a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn, sef adroddiad ar un ysgol babanod a chwe adroddiad ar ysgolion cynradd.

Yn y chwe adroddiad dan sylw roedd y safonau mewn AG fel a ganlyn:

| | **Da Iawn** | **Da** | **Boddhaol** | **Anfoddhaol** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 1** | 0 | 6 | 0 | 0 |
| **Cyfnod Allweddol 2** | 0 | 5 (*) | 0 | 0 |

*(*)Yn un o'r ysgolion ni welwyd unrhyw wersi; roedd y farn yn seiliedig ar archwilio gwaith plant ac ar dystiolaeth arall.*

Roedd yr agweddau ar yr adroddiadau y rhoddwyd y sylw **mwyaf mynych** iddynt fel agweddau canmoladwy neu dda fel a ganlyn:

| **Nodweddion cadarnhaol a arenwyd yn yr Adroddiadau Arolygu:** | ***Nifer yr ysgolion:*** |
|---|---|
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth | 6 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau ar wahân i Gristnogaeth | 6 ysgol |
| Gwybodaeth am gysyniadau a themâu crefyddol | 6 ysgol |
| Dim diffygion | 5 ysgol |
| Gwybodaeth/Dealltwriaeth o'r Beibl/ storïau Beiblaidd | 5 ysgol |
| Ymweliadau ag eglwysi lleol/capeli/mannau addoliad | 5 ysgol |
| Cyfansoddi eu gweddïau eu hunain | 3 ysgol |
| Perthynas y cynllun gwaith a'r Maes Llafur Cytunedig | 2 ysgol |

Roedd y nodweddion cadarnhaol eraill y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas ag **ysgolion unigol** yn unig fel a ganlyn:

- Cyfraniad cadarnhaol AG i addysg YMCD y disgyblion
- Defnydd da o 'amser'cylch' i ddatblygu sensitifrwydd disgyblion i deimladau eraill ac i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu a rhannu (**)
- Gwyliau'r Nadolig a Diolchgarwch yn cael eu dathlu mewn eglwysi yn y gymuned leol (#)

(**) *Mae'r sylw hwn, er ei fod yn ymwneud ag addysg YMCD yn hytrach nag AG yn benodol yn ymddangos yn adran AG yr adroddiad ar waethaf cyngor Estyn sy'n groes i hynny*
*(#) Mae'n ymddangos bod y sylw hwn yn ymwneud ag AG ond mewn gwirionedd mae'n cyfeirio at addoliad a dylai gael ei gynnwys, yn ôl arweiniad ESTYN, yn yr adran ar gyd-addoliad ac addysg YMCD.*

Roedd y meysydd a arenwyd fel rhai oedd yn peri pryder ar gyfer **un ysgol yn unig**, ac roeddent fel a ganlyn:

- Mae gwybodaeth y disgyblion yn gyfyngedig am nad ydynt yn cael cyfleoedd digonol i adfyfyrio ar eu gwybodaeth a'u profiad yn ystod gwersi neu wasanaethau (*)
- Mae gwybodaeth ehangach am grefydd yn cael ei llesteirio gan brinder arteffactau crefyddol (**)

*(*) Mae'r sylw hwn yn cyfeirio at AG a chyd-addoliad; serch mai cyfyng oedd dealltwriaeth y disgyblion, barnwyd bod y safonau'n dda.*
*(**) Mae'r sylw hwn, hefyd, yn awgrymu mai cyfyng oedd dealltwriaeth y disgyblion, serch hynny, barnwyd bod y safonau mewn AG yn dda.*

Wrth reswm, roedd yr aelodau'n ymfalchïo yn y ffaith fod cyn lleied o sylwadau negyddol, ac nad oedd unrhyw ddiffygion mewn pump o'r chwe ysgol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am nad oedd y feirniadaeth yn yr adroddiadau yn ymddangos fel petaent yn gyson â'r safonau a gofnodwyd ac nad oeddent yn fanwl gywir. Codwyd y materion hyn mewn gohebiaeth gyda Phrif Arolygwr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Ni chafodd AG ei chynnwys yn y materion allweddol yn yr un o'r chwe ysgol. O'r herwydd, roedd aelodau CYSAG yn falch o weld cynifer o sylwadau cadarnhaol a bod safonau'n cael eu hystyried yn dda yn yr adroddiadau i gyd. Dilynwyd y drefn arferol o ysgrifennu i ysgolion y cafodd eu Hadroddiadau Arolygu eu hadolygu i bwrpas llongyfarch y staff ar y pwyntiau cadarnhaol a gododd yn yr adroddiadau ac i'w hatgoffa am y gwasanaeth sydd ar gael gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Swyddogion yr AALl i'w cynorthwyo i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu faterion sy'n codi. Cyfeiriwyd yn ogystal at y sylwadau negyddol a ymddangosodd yn y detholiad o adroddiadau, a gofynnwyd i'r ysgolion arfarnu eu darpariaeth eu hunain yng nghyd-destun y materion hynny.

Adolygwyd a thrafodwyd tabl manwl o ganlyniadau arholiadau [Atodiad IV] gan CYSAG. Er bod yr aelodau'n siomedig am fod rhai o'r canlyniadau cyffredinol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, bu gwelliant yn y perfformiad o'u cymharu gyda chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol, ac ystyriwyd y byddai'n briodol i longyfarch yr ysgolion am y fath welliant. Ym maes Astudiaethau Crefyddol TGAU [Manyleb A] bu cynnydd o 26 yn nifer yr ymgeiswyr, a bu cynnydd o 9.2% yn y ganran a lwyddodd i gael graddau A* - C o 9.2%, sef 58.4%, er fod hyn yn parhau i fod oddeutu 8.2% yn is na chanlyniadau Cymru gyfan. Yn yr un modd, roedd perfformiad bechgyn a genethod wedi gwella, gyda'r bechgyn yn gwella o 15.3% (ond 12.7% yn is na chanlyniadau Cymru gyfan, a genethod o 5.8% (5% yn is na Chymru gyfan).

Yn y cwrs yr arferid ei alw'n Gwrs Byr TGAU, ond sydd bellach yn cael ei alw'n Atodiad B, roedd gostyngiad o 25 yn nifer yr ymgeiswyr ac roedd y canlyniadau braidd yn siomedig, gyda 56.3% yn derbyn graddau A* - C, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gobeithiai yr aelodau y byddai'r niferoedd oedd yn dilyn y cwrs hwn yn parhau i gynyddu a'r perfformiad yn parhau i wella.

Yn Lefel A, roedd cynnydd o 2 yn nifer yr ymgeiswyr ac roedd yr aelodau'n ymhyfrydu yn y ffaith fod canran y graddau A – C wedi cynyddu unwaith yn rhagor, o 1.8%, a bod canlyniadau'r AALl yn 87.5% - ffigwr sy'n arwyddocaol [oddeutu 17.2%] yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth gwrs, roedd y niferoedd yn fach, gyda chyfanswm o 16 ymgeisydd yn unig.

Yn yr arholiadau TCA roedd y canlyniadau wedi parhau i fod yn ganmoladwy ar waethaf gostyngiad bach mewn perfformiad, gyda graddfa basio o 87.1% a gostyngiad yng nghyfanswm yr ymgeiswyr i 31.

Roedd yr aelodau'n awyddus i beidio rhoi gormod o bwyslais ar ganlyniadau, ond roeddent yn dymuno llongyfarch Ysgolion Uwchradd yr AAll am eu hymdrechion i geisio sicrhau gwelliant a chynnal safonau. Penderfynwyd anfon llythyrau llongyfarch i'r ysgolion.

**(c) Cyd-addoliad/ Datblygiad YMCD disgyblion**

Yn ogystal ag ystyried adrannau AG yr Adroddiadau Arolygu , mae CYSAG hefyd yn ystyried yr adrannau ynddynt sy'n ymwneud â datblygiad YMCD y disgyblion. Mae'r

canlyniadau o safbwynt y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad YMCD y disgyblion am y flwyddyn fel a ganlyn:

| Da Iawn | Da | Boddhaol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|
| 2 | 4 | 0 | 0 |

*(*) Barn yn seiliedig ar addysg YMCD yn ei chrynswth neu ar gyfer datblygiad ysbrydol yn cael eu harenwi ar wahân.*

Wrth ddadansoddi'r sylwadau ar gyd-addoliad neu ddatblygiad YMCD gyda'i gilydd, y sylwadau cadarnhaol a grybwyllwyd yn **fwyaf mynych** ar gyfer dwy neu ragor o ysgolion oedd y canlynol:

| **Nodweddion cadarnhaol a arenwyd mewn Adroddiadau Arolygu [Datblygiad YMCD]:** | ***Nifer ysgolion:*** |
|---|---|
| Cyfleoedd da i dderbyn cyfrifoldeb a dangos blaengaredd | 6 ysgol |
| Ymwybyddiaeth dda/datblygiad priodol y Cwricwlwm Cymreig | 6 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill | 5 ysgol |
| Parchu/hyrwyddo gwerthoedd/cwrteisi/parch | 5 ysgol |
| Cyd-addoliad o ansawdd uchel | 4 ysgol |
| Cyfraniadau disgyblion i'r cydaddoli | 4 ysgol |
| Ansawdd perthynas | 4 ysgol |
| Cyfleoedd i adfyfyrio | 4 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o dda a drwg | 4 ysgol |
| Yn cefnogi elusennau ac achosion da | 4 ysgol |
| Amcanion eglur/ethos cyffredinol da | 3 ysgol |
| Cyfraniad cyd-addoliadau i ddatblygiad YMCD y disgyblion | 3 ysgol |
| Ymateb y disgyblion i'r ddarpariaeth YMCD yn dda/dda iawn | 3 ysgol |
| Darpariaeth ar gyfer datblygiad moesol/cymdeithasol | 3 ysgol |
| Ymwybyddiaeth/datblygiad cymdeithasol | 3 ysgol |
| Datblygiad diwylliannol | 3 ysgol |
| Cyfleoedd i gydweithredu/gydweithio | 3 ysgol |
| Awyrgylch cyffredinol dda | 3 ysgol |
| Cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cyd-addoliad | 2 ysgol |
| Naws y cydaddoli (yn gyfangwbl, yn bennaf, yn fras, yn Gristnogol) | 2 ysgol |
| Cyfleoedd i drafod materion moesol | 2 ysgol |
| Darpariaeth all-gwricwlaidd | 2 ysgol |
| Ymwybyddiaeth amgylcheddol | 2 ysgol |

Roedd y nodweddion cadarnhaol eraill y cyfeiriwyd atynt yn ymwneud ag **ysgolion unigol** yn unig, a gellir eu rhestru fel a ganlyn:

- Disgyblion yn gweddïo'n ddyddiol
- Yr ysgol yn addoli mewn addoldy lleol unwaith yr wythnos
- Cysylltiadau da gyda'r gymuned ac eglwysi lleol
- Cynllunio ar gyfer datblygiad moesol yn cael ei gynnwys ar gyfer yr holl byncia
- Gallu'r disgyblion i ryfeddu ac i ddatblygu ymdeimlad o barchedig ofn yn cael ei ddatblygu
- Y disgyblion yn deall bod eu syniadau personol yn cael eu parchu gan yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol
- Y disgyblion yn deall sut mae credoau yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymddwyn fel unigolion ac fel aelodau o gymuned
- Y 'clwb cyfeillgarwch' a'r 'amser cylch' yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd, cyrhaeddiad a datblygiad personol y disgyblion
- Y disgyblion yn ymateb mewn ffordd aeddfed i'r drefn o osod targedau ar gyfer cyflawniad academaidd
- Mae cynllun tymhorol ar gael sy'n arenwi y themâu, y gerddoriaeth a'r gweddïau sydd i'w defnyddio. Maent yn gydlynus o ran eu strwythur.
- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda

Dim ond mewn perthynas ag **ysgolion unigol** y nodwyd materion oedd yn destun pryder, ac roeddent fel a ganlyn:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion am ddiwylliannau eraill y byd yn annatblygedig
- Gwybodaeth y disgyblion am artistiaid a cherddoriaeth Gymreig, a'u gwybodaeth am gymeriadau o hanes Cymru yn gyfyngedig
- Y cyfleoedd i ddisgyblion wynebu'r her o weithio'n fwy annibynnol wedi'i gyfyngu i ddisgyblion hyn.

Ni chafodd cyd-addoliad na'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad YMCD y disgyblion ei gynnwys yn y materion allweddol ar gyfer yr un o'r ysgolion. Roedd yr aelodau'n ymfalchïo yn y rhestr faith o sylwadau cadarnhaol iawn o gyn lleied â chwe ysgol, ac yr un mor falch mai dim ond tri sylw negyddol a wnaed, a'r rheiny mewn perthynas ag ysgolion unigol yn unig.

Serch hynny, derbyniodd yr holl ysgolion yr un lefel o sylw ôl-adroddiad a chefnogaeth gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG a Swyddogion yr AALl. Roedd y llythyr llongyfarch gan CYSAG yn cynnwys cyfeiriad at y sylwadau uchod am ddatblygiad YMCD y disgyblion a rhannwyd y tri sylw negyddol yn y detholiad hwn o adroddiadau gyda'r ysgolion.

**(d) Darpariaeth HMS**

Paratowyd rhaglen o gyrsiau, a gynlluniwyd mewn ymateb i'r anghenion a arenwyd mewn gwybodaeth a gasglwyd gan swyddog GEST yr AALl, ar sail blaenoriaethau yr ysgolion ar gyfer athrawon, gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ac ar sail datblygiadau lleol a chenedlaethol.

Yn ôl yr arfer, roedd cyngor am ddulliau addysgu ac am adnoddau yn rhan sylweddol o gyrsiau HMS ac yn ystod ymweliadau â'r ysgolion gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.

**Penaethiaid Adrannau AG – Diwrnod Ymgynghori a Rhannu [Uwchradd]**
20 Medi 2002
Darparwr: Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG

Cymerodd 8 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Arweinydd Pwnc/CPH – Diwrnod Ymgynghori a rhannu (Cynradd)**
23 & 24 Medi 2002
Darparwr: Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG

Cymerodd 8 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Iddewiaeth a Bwyd mewn AG [Cynradd ac Uwchradd]**
17 Hydref 2002
Darparwr: Joy White, Prifysgol Hope, Lerpwl

Cymerodd 3 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Addysgu Cristnogaeth ac Iddewiaeth yn CA1 [Cynradd]**
4 & 5 Rhagfyr 2002
Darparwr : Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG

Cymerodd 9 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Bywiogi AG yn CA3 (Uwchradd)**
27 Ionawr 2003
Darparwr: Lat Blaylock, Swyddog Proffesiynol PCFRE a Swyddog Gwasanaethau AG Heddiw

Cymerodd 7 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Addysgu Cristnogaeth a Hindwaeth yn CA1 (Cynradd)**
5 Chwefror 2003
Darparwr: Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG

Cymerodd 4 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Addysgu Cristnogaeth, Hindwaeth a/neu Iddewiaeth (Cynradd) (Cyfrwng Cymraeg)**

7 Medi 2003
Darparwr : Carys Thomas. Ymgynghorydd Ag, ESIS

Cymerodd 6 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Gweithdy Addysgu AG yn yr Ysgol Gynradd**

30 Ebrill, 1 Mai & 2 Mai 2003
Darparwr: Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG

Cymerodd 10 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Penaethiaid Adrannau – Sesiwn Diweddaru – Cyfnos [Uwchradd]**

24 Mehefin 2003
Darparwr: Gavin Craigen, Arolygwr/Ymgynghorydd AG

Cymerodd 3 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

**Codi Safonau mewn AG trwy'r medrau allweddol (Cynradd)**

4 Gorffennaf 2003
Darparwr: Margaret Cooling, Ymgynghorydd Annibynnol

Cymerodd 5 o ysgolion Sir Ddinbych ran
(Rhannwyd y cwrs ar draws 4 AALl yng Ngogledd Dwyrain siroedd gogleddol Cymru)

*Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys sesiynau HMS a gynhaliwyd yn uniongyrchol gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd*

**(e) Ystyriaethau eraill**

**1. Materion cyffredinol**

(i) Cwblhawyd y trefniadau i ostwng tanysgrifiadau ysgolion yr AALl i Gyhoeddwyr PfP am adnoddau ar gyfer cydaddoli.
(ii) Ceisiwyd a chafwyd caniatâd i adgynhyrchu a dosbarthu adran Maes Llafur yr Eglwys yng Nghymru sydd yn ymwneud â'r Cwricwlwm Cymreig i'r ysgolion.
(iii) Mae CYSAG a'r AALl wedi cwblhau Adolygiad Pum Mlynedd o Safonau a darpariaeth AG a Chyd-Addoliad, ac er bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried yn

ystod cyfarfod Tymor yr Hydref y llynedd, cyhoeddwyd yr adroddiad ei hun ar ffurf Atodiad i Adroddiad Blynyddol y llynedd gan ei fod yn cynnwys y flwyddyn honno yn ei gylch gorchwyl.

(iv) Gwahoddwyd yr ysgolion i gymryd rhan yn y gystadleuaeth Cofeb Holocawst Cymru ac enwebwyd un o is-bwyllgorau CYSAG i ddethol deunydd y gellir ei anfon ymlaen i'r trefnwyr cenedlaethol. Roedd yr aelodau'n falch fod un cystadleuydd wedi ennill ar lefel genedlaethol, yn yr Adran Gelf Uwchradd. Hazel Watson, o Ysgol Uwchradd Dinbych, oedd yr ymgeisydd a enillodd. Cynrychiolwyd CYSAG a'r AALl yn y Gwasanaeth Coffa cofiadwy a gynhaliwyd yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.

(v) Mewn ymateb i Gymdeithas Athrawon AG yn siroedd Gogledd-Orllewin Cymru, cynhaliwyd 'Diwrnod Crefydd a Brofwyd' yng Nghadeirlan Llanelwy yn ystod Mehefin 2003. Bu hwn yn ddigwyddiad cyffrous a buddiol ac mae adroddiad llawn, sy'n cynnwys lluniau, yn ymddangos yn Atodiad V i'r Adroddiad hwn. Roedd yr Aelodau'n falch iawn o dderbyn gwybodaeth am y digwyddiad ac yn gobeithio y gellir trefnu digwyddiadau cyffelyb ar gyfer disgyblion yr awdurdod yn y dyfodol.

(vi) Fel canlyniad i'r Fforwm Ffydd Llwyddiannus ar gyfer Pobl Ifanc a gynhaliwyd i ddathlu Jiwbilî Aur y Frenhines, ystyriodd CYSAG gais gan y trefnyddion i gynnal digwyddiad tebyg yn Sir Ddinbych. Fel canlyniad anfonwyd crynodeb o'r adroddiad i bob ysgol uwchradd, a gofynnwyd iddynt rannu rhai o'r sylwadau gyda'r disgyblion ac i gwblhau holiadur ynglyn â chynnal digwyddiad tebyg yn Sir Ddinbych. Yn gyffredinol, roedd yr ysgolion o blaid y fath ddigwyddiad ac addawodd CYSAG edrych i mewn i'r posibiliadau ac i gyplysu'r digwyddiad gyda'r Fforwm Ieuenctid sydd eisoes yn gweithredu yn yr Awdurdod.

**2. ACCAC**

Ystyriodd CYSAG y ddogfen ymgynghorol Dysgu yn y Cyfnod Cychwynnol ac anfonwyd ymateb manwl iddi, yn gwneud cais am i AG a materion ysbrydol gael eu cynnwys yn y trefniadau newydd ar gyfer y cwricwlwm. Atgoffwyd ACAC am ohebiaeth flaenorol ynghylch y mater hwn , ynghyd â chopi o lythyr gan y Prif Weithredwr yn addo cynnwys AG a datblygiad moesol yn yr agwedd hon ar y cwricwlwm.

Cafwyd cyflwyniad am Ddefnyddiau Asesu Opsiynol gan Swyddog AG ACAC i CYSAGAC i gyfarfod CYSAG. Roedd yr Aelodau yn fodlon ar botensial y defnyddiau, a chafwyd canmoliaeth a sylwadau cadarnhaol gan yr athrawon a'u gwelodd. Roedd CYSAG wedi ysgrifennu at y Prif Weithredwr i longyfarch ACCAC ar y defnyddiau ac i wneud cais am i gontract rhan-amser y Swyddog gael ei ymestyn neu ei gryfhau er mwyn i'r defnyddiau gael eu cwblhau cyn gynted â phosib ac er mwyn i gefnogaeth i AG gael ei chynnal. Derbyniwyd ateb oedd yn addo ystyried y mater pan fyddai trefniadau gwaith yn cael eu hadolygu.

**3. CYSAGAC**

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o'r Gymdeithas ac yn derbyn papurau ac adroddiadau yn ogystal â diweddariadau interim ym mhob cyfarfod.

Rhoddodd CYSAG ystyriaeth i'r Symposiwm a gynhaliwyd yn Llanidloes ac roedd yr aelodau'n falch bod CYSAG Sir Ddinbych yn gwneud rhai o'r pethau eisoes a'u bod yn bwriadu gwahodd athrawon, ac o bosib rhai disgyblion, mewn cyflwyniadau i'r CYSAG. Roedd yr aelodau hefyd yn sicr eu barn bod cyfeiriad a llwyddiant gwaith CYSAG i'w briodoli'n bennaf i waith effeithlon a diwyd ac i'r arweiniad a geir gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.

Neilltuwyd cyfran sylweddol o amser CYSAG i bwrpas ystyried y posibilrwydd y byddai Fframwaith Cenedlaethol ar gael ar gyfer AG yng Nghymru. Cytunwyd i gefnogi cyflwyno fframwaith o'r fath, cyn belled â bod ymgynghori llawn yn digwydd gyda'r CYSAGau ac AALl Cymru a chyn belled ag y byddai'r hawl i ddiwygio neu newid y fframwaith yn aros ar lefel leol. Yn unol â'r cais, anfonwyd yr wybodaeth hon yn uniongyrchol i CYSAGAC.

**4. ESTYN**

Mae CYSAG wedi cysylltu sawl gwaith gyda Phrif Arolygwr ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ynghylch ansawdd a chywirdeb rhai Adroddiadau Arolygu a'r sylwadau a gynhwyswyd yn yr adrannau ar AG a datblygiad CYMD disgyblion. Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r ddeialog a gafwyd, yn croesawu ymatebion y Prif Arolygwr ac yn gwerthfawrogi y bartneriaeth rhwng ESTYN a'r CYSAG o safbwynt monitro a gwella y safonau a'r ddarpariaeth.

Yn ogystal, roedd ystyriaeth o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygwr hefyd yn rhan o agenda'r flwyddyn hon, a chafodd hyn ei berthnasu gyda'r sefyllfa yn ysgolion Sir Ddinbych.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth, hefyd, i'r ddogfen Canllawiau Drafft Arolygu ac ysgrifennwyd at y Prif Arolygwr i fynegi pryder am nifer o faterion, sef:

- Y potensial i amharu ar waith CYSAG, ac yn wir ar waith ESTYN ei hun, oherwydd na cheir digon o Adroddiadau Arolygu gydag AG wedi'i gynnwys ynddynt i alluogi'r cyrff i ffurfio barn briodol am y safonau a'r ddarpariaeth
- Y diffyg eglurder a phenodolrwydd yn y disgrifiadau gradd drafft newydd
- Yr anawsterau sy'n wynebu arolygwyr mewn perthynas ag adrodd yn ôl a rhoi adborth i athrawon yn ystod arolygiadau, ac wrth iddynt geisio rheoli amlder y mân adrannau sy'n perthyn i'r saith cwestiwn allweddol.

Awgrymodd llythyr SACRE y dylai ESTYN drefnu cynhadledd SACRE ar gyfer 22 Awdurdod Unedig yng Nghymru i drafod y Fframwaith a'r Canllawiau newydd ac i alluogi pobl i fynegi eu pryderon wrth y Prif Arolygydd ac Uwch Arolygwyr.

**(f) Atodiadau:**

Atodiad I: Dyddiadau Cyfarfodydd CYSAG

Gweler Tudalen 11

Atodiad II: Aelodaeth CYSAG
Gweler Tudalennau 11 – 12

Atodiad III: Rhestr o Fudiadau sy'n derbyn yr Adroddiad
Gweler Tudalen 12

Atodiad IV: Tabl o Ganlyniadau Arholiadau (fel y cawsant eu cyflwyno i CYSAG)
Gweler Tudalennau 13 – 20

Atodiad V: Ymchwilio Cristnogaeth – Dyddiau Profiad i Ddisgyblion
Yng Nghadeirlan Llanelwy Mehefin 2003

Gweler Tudalennau 21 – 24

**Atodiad 1: Dyddiadau cyfarfodydd CYSAG**

17 Hydref 2002; 27 Chwefror 2003; 1 Gorffennaf 2003

**Atodiad II: Aelodaeth CYSAG**

**Yn cynrychioli enwadau crefyddol:**

Yr Eglwys yng Nghymru
Terry Bryer
Sylvia Harris

Undeb y Bedyddwyr
Dr C W Jones (Welsh)
Yn aros am enwebiad (Saesneg)

Methodistiaid
Heulwen Ellis

Undeb Annibynwyr Cymru
Mona Evans

Byddin yr Iechydwriaeth
Yn aros am enwebiad

Yr Eglwys Gatholig
Stephanie Flavell
James Kirkham

Y Presbyteriaid
Y Parch. John Owen (Cymreig)
Mary Colbert (Saesneg)

Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig
Sandra Gordon

Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion
Jennifer Gibson

Y Mudiad Efengylaidd yng Nghymru
Y Parch. Philip J Collinson

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon:**

Pennaeth Uwchradd
Sister Elizabeth Kelly

Pennaeth Cynradd
Neil Roberts (tan Chwefror 2003)

Arbenigwr AG Uwchradd
Delyth Williams

Pennaeth Babanod
Mrs Jean Hannam (o Orffennaf 2003)

Athrawon Ysgolion Arbennig
Maria Barros-Curtis

Athro Dosbarth Cynradd
Yn aros am enwebiad

Athrawes Ddosbarth - Babanod
Mrs Mairwenna B. Lloyd

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorydd S Drew
Y Cynghorydd D Jones
Y Cynghorydd W Roberts
Y Cynghorydd N Hugh-Jones
Y Cynghorydd K N Hawkins
Y Cynghorydd M M Jones
Y Cynghgorydd R Ll Williams
Y Cynghorydd B. Blakeley

**Aelodau Cyf-etholedig**

Canolfan Genedlaethol AG Cymru
Y Parchedig Athro Leslie J Francis

Mudiad Addysg Gristnogol Cymru
Yn aros am enwebiad

**Atodiad III: Rhestr o gyrff sy'n derbyn yr adroddiad:**

ACCAC
Pob ysgol a choleg yr yn AALl
Canolfan AG Genedlaethol Cymru
Pob AALl yng NGhymru
Esgobaeth Llanelwy
Esgobaeth Wrecsam
Coleg y Drindod, Wrecsam
Y Gynghrair Efengylaidd
CYSAGAC

**ATODIAD IV: Tablau Canlyniadau Arholiadau**

**Atodiad V: Ymchwilio Cristnogaeth – Dyddiau Profiad i Ddisgyblion yng Nghadeirlan Llanelwy – Mehefin 10 & 12 2003**

Cefndir ac Amcanion:

Mae Cymdeithas Athrawon Addysg Grefyddol siroedd gogledd-ddwyrain Cymru wedi bod yn trefnu nifer o weithgareddau i athrawon yn ystod y flwyddyn, a chawsant y syniad o roi'r ffocws ar Gristnogaeth gan fod profiad crefyddol uniongyrchol y disgyblion yn aml yn gyfyng er bod yr argraffiadau neu'r disgwyliadau sydd ganddynt yn gwneud iddynt synio am grefydd fel peth diflas, anniddorol ac fel rhywbeth sydd yn amherthnasol iddynt. O hedyn y syniad hwnnw y dechreuodd rhywbeth dyfu.

Y cam cyntaf oedd cynnal sesiwn cyfnos 'Cristnogaeth ar gynnig' yn y Gadeirlan ar gyfer athrawon a chynrychiolwyr ystod eang o enwadau Cristnogol er mwyn iddynt fedru cyfarfod â'i gilydd a gweld beth y gallai cymuned y ffydd Gristnogol ei wneud i ysgolion o safbwynt eu gwaith yn addysgu disgyblion ynghylch Cristnogaeth. Roedd hon yn sesiwn werthfawr, ac arweiniodd at sefydlu cysylltiadau defnyddiol rhwng ysgolion a mannau addoliad.

Yr ail gam oedd y dyddiau 'Profiad o Gristnogaeth'. Roedd amcan y rhai fel a ganlyn:
- I alluogi disgyblion i ddysgu am agweddau ar Gristnogaeth trwy brofiad uniongyrchol
- I gynnig profiad cadarnhaol o Gristnogaeth ac addoliad i'r disgyblion
- I ychwanegu at y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth
- I symbylu diddordeb disgyblion wrth iddynt ymchwilio'r ffydd a phrofiadau Cristnogol

Mynegwyd diddordeb gan sawl ysgol, ond gofynnwyd i'r rhai oedd yn dymuno dod â nifer fawr o ddisgyblion wneud trefniadau i gynnal digwyddiad ar wahân, ar eu pennau eu hunain. Gofynnwyd i rai eraill, sy'n ymweld â'r gadeirlan yn rheolaidd, gadw at y patrwm y maent wedi'i sefydlu. Gosodwyd terfyn ar y rhifau o safbwynt logisteg, a defnyddiwyd yr egwyddor 'cyntaf i'r felin gaiff falu' i gofrestru'r ysgolion am y ddau ddiwrnod.

Gweithdai'r bore:

Defnyddiwyd sesiwn y bore i gyflwyno tri gweithdy, pob un ohonynt yn cyflwyno tair thema:
- ***Ymchwilio Symbolaeth Gristnogol*** (Baneri sy'n dwyn neges, Ffenestri Gwydr Lliw, Cerfiadau ac ysgythriadau)
- ***Ymchwilio'r Beibl Cristnogol*** (Copïo a Chyfieithu, Y Damhegion, Drama a'r Beibl a Chenhadaeth)
- ***Ymchwilio Addoliad Cristnogol*** (Gweddi, Cerddoriaeth ac Urddwisgoedd)

Roedd y gweithdy yn parhau am tua hanner awr, a chafodd grwpiau [o10-18 o ddisgyblion ym mhob un] brofiad o un thema yn eu hystod.

Y prynhawn – 'Taith bywyd':

Ar ôl cinio, ar dir y Gadeirlan, gan fod y tywydd yn gynnes a sych ar y ddau achlysur – cafodd y tri grwp o ddisgyblion eu cyfuno a threfnwyd iddynt ymweld â chwe 'gorsaf' yng nghyffiniau'r eglwys er mwyn iddynt brofi cyflwyniadau pwerus ar agweddau o '**Ymchwilio'r Daith Gristnogol.** Y chwe gorsaf oedd:

- Bedydd (cragen)
- Bedydd Esgob (esgob)
- Y Cymun (caregl)
- Priodas (modrwyau)
- Gwella (llestr olew)
- Galwedigaeth (neges testun : "Beth sydd 'na i chi?")

Wedi iddynt gyrraedd pob 'gorsaf' roedd pob grwp yn derbyn symbol [fel y nodir uchod], er mwyn iddynt fedru mynd â hwy yn ôl i'r ysgol i'w defnyddio ar gyfer gwneud gwaith pellach.

Yr uchafbwynt – addoliad:

Gorffennodd y diwrnod gyda gweithred fer o gydaddoliad oedd yn cynnwys gweddïau, dwy weddi, darlleniad o'r Beibl a sgets fer ynghyd â neges fer oedd yn tynnu gwahanol agweddau ar y diwrnod at ei gilydd. Cafodd y baneri a gynhyrchwyd yn un o'r gweithdai eu cario mewn gorymdaith trwy ganol y gynulleidfa yn ystod yr emyn olaf, a gadawodd y disgyblion y Gadeirlan wedi cael profiad gwirioneddol gadarnhaol o Gristnogaeth.

Rhai ystadegau:

- Cafodd rhagor na 400 o ddisgyblion o 12 ysgol ar draws yr AALl ran yn y gweithgarwch cynhyrfus hwn. Ar y dydd Mawrth, mynychwyd y Gadeirlan gan 197 o ddisgyblion ysgolion cynradd ac ar y dydd Iau daeth 210 o ddisgyblion uwchradd yno. O ystyried popeth gyda'i gilydd, cafwyd cefnogaeth ryfeddol gan 50 o arweinyddion gweithdai a chymorthyddion yn ystod y ddeuddydd gyda rhai ohonynt yn cyfrannu ar y ddau ddiwrnod ac yn cynrychioli ystod o fudiadau Cristnogol!

A bu'r holl beth yn llwyddiant digamsyniol.

Y dystiolaeth Gristnogol unedig:

Yn ogystal â bod yn ddigwyddiad cynhyrfus a symbylus – a dyna oedd y bwriad – yr oedd yn dda o beth gweld aelodau y gwahanol enwadau Cristnogol yn sefyll ochr-yn-ochr i weithio gyda grwpiau o ddisgyblion.

Gwirfoddololodd gweinidogion a swyddogion yr Eglwys yng Nghymru, Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig, Byddin yr Iechydwriaeth, Eglwys Calfaria, Chanolfan Gristnogol Wellspring

[Elim], myfyrwyr ar brofiad gwaith mewn eglwysi lleol ar gynllun PAIS, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion [Crynwyr] a chynrychiolwyr Christian Aid i gymryd rhan.

Roedd gwneud dim mwy nac arsylwi'r gweithgareddau yn ystod y dydd yn rhoi'r argraff o neges eglur a bywiog yn cael ei chyflwyno am y grefydd Gristnogol; i'r disgyblion a gafodd brofiad uniongyrchol o'r gweithgarwch, rhaid ei fod yn rhagor na hynny.

Mae'r AALl, yr ysgolion, y disgyblion a Chymdeithas AG yn ddyledus dros ben i Esgob a Deon Llanelwy am eu cydsyniad, eu cyfranogiad a'u cefnogaeth, ac i'r Parch Mary Stallard a Sylvia Harris o'r Esgobaeth am eu gwaith ymarferol a threfniadol sylweddol.  Rhaid diolch hefyd i'r garfan fawr o gynorthwyodd mewn ffyrdd eraill i wneud yr holl beth yn bosibl.

*(Bydd lluniau a dynnwyd ar y diwrnod yn cael eu gosod mewn gwahanol fannau yn yr adroddiad)*

# SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGU CYSAG SIR DDINBYCH

±

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Arolygwr Cofrestredig</th><th>Arolygwr YMCD</th><th>Arolygwr AG</th></tr>
<tr><td>Borthyn WR Rhuthun</td><td>24 – 28 Mehefin 2002</td><td>Mr M Maguire AEM</td><td>Mrs M Turford AEM</td><td>Heb ei gynnwys</td></tr>
<tr><td colspan="5">Lleolir Ysgol Gynradd Borthyn yn Rhuthun, mewn ardal nad yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Roedd 153 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Cymraeg yw iaith gyntaf rhai ohonynt. Mae addysg feithrin ar gael yn y bore ar gyfer 14 o blant. Mae oddeutu 20% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim ac mae gan oddeutu 30% anghenion addysgol arbennig. O’r rhain mae 8 ar ddatganiad.<br>Yn ystod cyfnod yr arolygiad roedd yn gyfwerth â 7.3 o athrawon amser-llawn ar y staff.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Famau</td><td>24 – 28 Mehefin 2002</td><td>Mr Gareth Davies-Jones</td><td>Mrs Annette Evans</td><td>Mrs Annette Evans</td></tr>
<tr><td colspan="5">Clwstwr o dair ysgol sydd wedi’u lleoli ar 3 safle gwahanol, yn Llanarmon-yn-Iâl, Graianrhyd a Llanferres yw Ysgol Bro Famau. Mae un pennaeth yn gyfrifol am y 3 ysgol. Disgrifir yr ardal fel un sy’n gymysgedd o ardaloedd sy’n weddol lewyrchus ac ardaloedd nad ydynt yn llewyrchus nac o dan anfantais economaidd. Yn ystod cyfnod yr arolygiad roedd 98 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 8 o blant meithrin. Cyflogir staff sy’n gyfwerth â 7.6 o athrawon amser llawn. Mae 10% o’r athrawon yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae cyfanswm o 18 disgybl ar gamau 1-4 o’r Côd Ymarfer AAA presennol, gyda dau ohonynt ar ddatganiad. Daw pob un o’r disgyblion o gartrefi lle mae’r Saesneg yn iaith yr aelwyd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Pentrecelyn</td><td>14 – 16 Hydref 2002</td><td>Mr Phil Mostert</td><td>Mr Phil Mostert</td><td>Ms R Orina Pritchard</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol naturiol ddwyieithog, sy’n gwasanaethu’r gymuned amaethyddol mewn ardal a leolir rhyw 4 milltir i’r de o Ruthun yw Ysgol Pentrecelyn. Nid yw’r ardal yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ac nid yw’r disgyblion yn freintiedig nac yn amddifadus. Mae ystod llawn o allu yn yr ysgol ac mae 2% o’r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Roedd 74 ar gofrestr yr ysgol. Daw traean o gartrefi lle siaredir y Gymraeg, ond mae 75% yn siarad yr iaith i safon sy’n cyfateb i iaith gyntaf. Mae 14 o blant ar y gofrestr AAA, ond nid oes yr un ar ddatganiad. Yn ystod yr arolygiad yr oedd y staffio ar lefel sy’n cyfateb i 4.5 o athrawon amser llawn.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td>Ysgol Heulfre</td><td>15 -17 Hydref 2002</td><td>Ms L Thomas</td><td>Ms L Thomas</td><td>Mrs ME Hughes</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol gynradd fechan yn gwasanaethu’r ystad sydd o’i chwmpas yn nhref Dinbych yw Ysgol Heulfre. Yn ystod yr arolygiad roedd 97 o ddisgyblion ar y gofrestr.  Mae’r rhan fwyaf o’r dalgylch yn amddifadus ac mae’r disgyblion o ystod llawn o allu. Mae 49% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, cyfran sy’n uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru. Saesneg yw iaith cartref pob un o’r disgyblion. Mae tri deg un [32%]o’r disgyblion ar gofrestr AAA yr ysgol. Mae 6 yn cael eu monitro,11 yn destun gweithredu plws gan yr ysgol a 4 ar ddatganiad. Yn ystod yr arolygiad, roedd y staffio yn gyfwerth â 6 o athrawon amser llawn.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Y Rhyl</td><td>11 -15 Tachwedd 2002</td><td>Mrs A Powell</td><td>Mr Heddwyn Evans</td><td>Mr Heddwyn Evans</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol Gyfun i ddisgyblion 11-18 yw Ysgol Uwchradd Y Rhyl. Mae safle’r ysgol yn cynnwys canolfan chwaraeon. Yn ystod yr arolygiad roedd 1186 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gyda’r rhan fwyaf ohonynt yn dod o dref Y Rhyl ei hun. Mae’r ardal yn bur amddifadus yn economaidd ac mae 21% o’r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae un ardal yn nalgylch yr ysgol yn un o wardiau mwyaf amddifadus Cymru. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, mae rhai parthau yn y dalgylch yn eithaf lewyrchus,a lefelau diweithdra yn isel ynddynt. Mae’r dref yn denu nifer o deuluoedd ansefydlog. Daw’r rhan fwyaf o’r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith; mae llai nag 1% yn siarad y Gymraeg fel iaith gyntaf. Daw 1% o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae ystod llawn o allu yn yr ysgol. Mae 17% o’r disgyblion ar y gofrestr AAA ac mae 3% ar ddatganiad. Yn ystod cyfnod yr arolygiad roedd y staffio ar lefel sy’n gyfwerth â 66.5 o athrawon amser llawn.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Brynhyfryd Rhuthun</td><td>18 – 22 Tachwedd 20<br>02</td><td>Mr Gareth W Roberts</td><td>Mr Heddwyn Evans</td><td>Mr Heddwyn Evans</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol gyfun naturiol ddwyieithog, ar gyfer bechgyn a genethod yw Ysgol Brynhyfryd. Mae oddeutu 1230 o ddisgyblion ar y gofrestr gan</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *gynnwys y 240 o fyfyrwyr sydd yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sydd gan fwyaf yn amaethyddol. Daw 40% o'r disgyblion o'r dref a 60% o'r ardal wledig sydd o'i chwmpas.Nid yw tua hanner y disgyblion yn freintiedig nac yn ddifreintiedig, a daw'r hanner arall o gefndir gweddol lewyrchus. Mae'r disgyblion yn gymharol freintiedig a dim ond 7% sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r disgyblion a ddaw i'r ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan dri-deg-dau o'r disgyblion, [oddeutu 3% o ddisgyblion BY7-B11]ar ddatganiad anghenion addysgol arbennig[AAA] Yn ychwanegol at hynny, mae 103 o ddisgyblion a myfyrwyr [10%] ar gamau'r Côd Ymarfer AAA. Mae'r ganran hon oddeutu hanner y ffigwr cenedlaethol. Cafodd 24 o'r disgyblion eu dadgymhwyso o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol [CC].Lleolir uned sirol ar gyfer disgyblion AAA sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn yr ysgol. Mae gan y disgyblion hyn ystod o anawsterau dysgu. Mae 35% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a'r 65% arall o gartrefi Saesneg eu hiaith. Daw tua 1% o'r disgyblion o gefndir ethnig a siaradant ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu cartrefi. Gall tua 40% o'r disgyblion siarad y Gymraeg i safon sy'n cyfateb i iaith gyntaf. Gwneir defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn yr ysgol. Yn ystod cyfnod yr arolygiad roedd y staffio ar lefel sy'n gyfwerth â 73.6 o athrawon amser-llawn.* | | | | |
| **Ysgol Mair (Catholig – dan gymorth]** | **28 – 31 Ionawr 2003** | **Mr D M Gray** | **Mr D K Davies (Adran 10)** | **Adran 23** |
| *Ysgol Wirfoddol Gatholig dan gymorth yn nhref Y Rhyl yw Ysgol Mair. Mae ei dalgylch yn eang, ac mae llawer ohono yn ddifreintiedig. Roedd 411o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn ystod cyfnod yr arolygiad. Daw 30% o'r disgyblion o gartrefi nad ydynt yn arddel y ffydd Gatholig. Mae gan 23% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae 95 disgybl [23% ohonynt], wedi'u dynodi'n ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig[AAA]. Mae naw disgybl ar ddatganiad]. Mae disgyblion sy'n dod o sawl math o gefndir ethnig yn mynychu'r ysgol. Nid oes yr un disgybl yn dod o gartref lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Yn gyffredinol mae'r ystod lawn o allu yn cael ei chynrychioli ym mhoblogaeth yr ysgol. Yn ystod cyfnod yr arolygiad roedd y staffio ar lefel sy'n gyfwerth ag 16.3 o athrawon amser llawn..* | | | | |
| **Ysgol Eglwys Crist, Y Rhyl** | **4-7 Mawrth 2003** | **Mr D M Gray** | **Mrs E W Honour** | **Mr D M Gray** |

*Mae Ysgol Eglwys Crist yn ysgol gynradd sy'n gwasanaethu ardal fewnol tref Y Rhyl. Mae ei dalgylch yn un a gydnabyddir fel un sydd o dan anfantais economaidd dybryd ac mae llawer o ddisgyblion llai galluog ac ychydig o blant galluog yn ei mynychu. Mae gan 51% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 150 ohonynt [33%] wedi'u dynodi'n ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig [AAA] ac o'r rhain mae 15 ar ddatganiad, gan gynnwys y rhai sydd yn y dosbarth Anawsterau Dysgu Cymedrol [ADC]. Mae hyd at 48% o boblogaeth yr ysgol yn perthyn i grwp arbennig o fawr o deuluoedd ansefydlog. Yn ystod yr arolygiad roedd 425 o ddisgyblion ar y gofrestr a'r staffio yn gyfwerth â 17 o athrawon amser llawn. Cynrychiolir sawl grwp ethnig ym mhoblogaeth yr ysgol. Nid oes yn yr ysgol ddisgyblion sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt.*

## Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiadau CYSAG Sir Ddinbych

**8 Ysgol**

| Enw'r ysgol | Dyddiad yr arolygiad | Arolygwr Cofrestredig | Arolygwr YMCD | Arolygwr AG |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Borthyn | 24-25 Mehefin 2002 | Mr M Maquire AEM | Mrs M Turford AEM | Heb ei gynnwys |
| Ysgol Bro Famau | 24 – 28 Mehefin 2002 | Mr Gareth Davies-Jones | Mrs Annette Evans | Mrs Annette Evans |
| Ysgol Pentrecelyn | 14-16 Hydref 2002 | Mr Phil Mostert | Mr Phil Mostert | Ms R Orina Pritchard |
| Ysgol | 15-17 | Ms L | Ms L | Mrs M E |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Heulfre | Hydref 2002 | Thomas | Thomas | Hughes |
| Ysgol Uwchradd Y Rhyl | 11 – 15 Tachwedd 2002 | Mrs A Powell | Mr Heddwyn Evans | Mr Heddwyn Evans |
| Ysgol Brynhyfryd Rhuthun | 18 – 22 Tachwedd 2002 | Mr Gareth W Roberts | Mr Heddwyn Evans | Mr Heddwyn Evans |
| Ysgol Mair Catholig, dan gymorth | 28 – 31 Ionawr 2003 | Mr D M Gray | Mr D K Davies (Adran10) | Adran 23 |
| Ysgol Eglwys Mair, Y Rhyl | 4 – 7 Mawrth 2003 | Mr D M Gray | Mrs E W Honour | Mr D M Gray |

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

***<u>Yn cael eu cynnwys yn y Materion Allweddol</u>***
***1 Ysgol***
*Yn cyfarfod yn llawn â'r gofyniad statudol i drefnu gweithred o gydaddoliad i'r holl ddisgyblion [Ysgol Uwchradd Y Rhyl]*
*(Er bod datganiad oedd yn dweud nad oedd yr ysgol [Pentrecelyn]yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, ni chafodd hynny ei gynnwys yn y materion allweddol).*

**<u>SYLWADAU CADARNHAOL</u>**

<u>Darpariaeth ar gyfer datblygiad YMCD</u>
**1 Ysgol**

- Ar y cyfan, mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr agweddau hyn ar ddatblygiad y disgyblion yn dda. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda ac mae'n adlewyrchu ethos cadarnhaol a gofalgar yr ysgol. (Bro Famau)
- Mae datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn foddhaol. *(Pentrecelyn)*

- Mae datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. *(Heulfre)*
- Mae datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn foddhaol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Datblygir cyfleoedd da i ddangos blaengaredd trwy'r ysgol ac yn y cynghorau blwyddyn. Yn aml mae ffocws y rhain ar helpu eraill, yn yr ysgol a thu hwnt iddi. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda ac mae eu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yn dda iawn. *(Brynhyfryd)*
- Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. *(Ysgol Mair)*
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldeb mewn ffordd synhwyrol. *(Ysgol Mair)*
- Mae datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda ac mae eu datblygiad diwylliannol ac ysbrydol yn foddhaol. *(Ysgol Eglwys Crist)*

<u>Cydymffurfio/Hyrwyddo Gwerthoedd/ Cwrteisi/Parch</u>
***8 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn parchu ei gilydd ac oedolion, ac maent yn gofalu am eu hamgylchfyd. *(Borthyn )*
- Mae'r disgyblion yn agored a chyfeillgar yn eu hymwneud â'i gilydd ac ag oedolion. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae'r disgyblion yn gwbl ymwybodol o wahanol anghenion eu cyd-ddisgyblion. *(Ysgol Borthyn )*
- Mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd clir y rhoddir mynegiant iddynt yn amcanion yr ysgol yn amlwg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r cwricwlwm a bywyd dydd-i-ddydd yr ysgol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth am werthoedd a chredoau. *(Bro Famau)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo safonau moesol uchel. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r angen iddynt barchu eraill.(B*ro Famau)*
- Anogir y disgyblion i barchu rheolau a gwerthoedd cytunedig yr ysgol yn briodol. *(Pentrecelyn)*
- Mae'r gymuned yn yr ysgol yn ofalgar iawn ac mae pob disgybl yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ynddi. *(Heulfre)*
- Mae'r disgyblion yn amlygu parch tuag at bobl ac eiddo. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb am yr amgylchedd. *(Heulfre)*

- Maent yn amlygu parch tuag at ei gilydd, eu hathrawon, ymwelwyr â'r ysgol ac amgylchedd ac adnoddau'r ysgol. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r disgyblion yn hyderus ac yn hunan-ddisgybledig. *(Brynhyfryd)*
- Mae aelodau staff yn hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol. *(Ysgol Mair)*
- Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech arbennig i annog y disgyblion i fod yn gwrtais ac i roi bri ar eu gweithgarwch yn yr ysgol a'u gweithgarwch tu hwnt iddi. *(Ysgol Mair)*
- Rhoddir cymorth i ddisgyblion newydd ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol.(Y*sgol Mair)*
- Mae'r disgyblion yn croesawu ac yn siarad yn hyderus gydag ymwelwyr, gan adlewyrchu'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol. *(Ysgol Eglwys Crist)*

<u>Y Cwricwlwm Cymreig/Y Dimensiwn Cymreig</u>
***7 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn amlygu ymwybyddiaeth briodol o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Gwneir defnydd da o Gymraeg achlysurol, yn ystod y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae ymwybyddiaeth a gwybodaeth y disgyblion am eu hetifeddiaeth ddiwylliannol, ar draws yr ystod o bynciau a gweithgareddau sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cymreig, yn dda. Mae ymweliadau gan artistiaid lleol, gan gynnwys un rhiant, a chymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn cael effaith arwyddocaol ar eu hymwybyddiaeth o'r diwylliant Cymreig. *(Bro Famau)*
- Cyflwynir y disgyblion yn dda i ddiwylliannau a chrefyddau eraill. *(Pentrecelyn)*
- Rhoddir y sylw dyledus i'r Cwricwlwm Cymreig yng ngweithgareddau'r ysgol. *(Pentrecelyn)*
- Mae datblygiad diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda mewn perthynas â'r dimensiwn Cymreig
- Mae ymweliadau i fannau o ddiddordeb yn y cylch a thu hwnt iddo, gan gynnwys ymweliadau blynyddol gydag ysgol yn Ne Cymru a chyfranogi yn Eisteddfod yr Urdd yn ychwanegu at eu hymwybyddiaeth o'r diwylliant a'r traddodiadau Cymreig. *(Heulfre)*

- Mae'r diwylliant Cymreig yn cael ei gynnwys mewn rhai pynciau e.e. hanes a daearyddiaeth, a chynhelir eisteddfod ysgol lwyddiannus.*(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae ethos yr ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal ac o Gymru a'i hetifeddiaeth ddiwylliannol. Caiff y Cwricwlwm Cymreig ei gynllunio ar draws pynciau'r cwricwlwm. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a thraddodiadau Cymru yn dda ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'u diwylliant eu hunain ac o ddiwylliannau eraill. *(Ysgol Mair)*

<u>Gwybodaeth/Dealltwriaeth/Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill</u> ***7 Ysgol***

- Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill, a'r parch a ddangosant tuag atynt o leiaf yn foddhaol a chaiff ei gyfoethogi trwy, er enghraifft, yr astudiaeth o Islam ym Mlwyddyn 4.
  *(Ysgol Borthyn )*
- Mae'r disgyblion yn datblygu gwerthfawrogiad cynyddol o draddodiadau a chredoau pobl eraill ac maent wedi elwa o'r ymweliad â'r ysgol gan fynach Bwdhaidd a rhiant sydd hefyd yn Fwdhydd. *(Bro Famau)*
- Caiff y disgyblion eu cyflwyno'n dda i ddiwylliannau a chrefyddau eraill. *(Pentrecelyn)*
- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion am ddiwylliannau, crefyddau a chredoau yn cael eu datblygu'n effeithiol.*(Heulfre)*
- Mae addysg aml-ddiwylliant yn cael ei hadlewyrchu mewn agweddau ar y gwaith mewn rhai pynciau, er enghraifft, mewn addysg grefyddol, hanes, ABI a chelf. Mae'r dimensiwn Ewropeaidd ar y cwricwlwm yn cael ei ddatblygu'n systematig trwy'r modd yr addysgir y pynciau a thrwy gyfrwng yr ymweliadau â Ffrainc.*(Ysgol Uwchradd YRhyl)*
- Mae ymwybyddiaeth Ewropeaidd a global y disgyblion yn cael ei ddatblygu trwy agweddau penodol ar y cwricwlwm ac mae cyfleoedd niferus i ymweld â gwahanol wledydd trwy gynlluniau cyfnewid. Cafodd disgyblion o'r chweched dosbarth fudd o'r Rhaglen Her Fyd-eang a gynhaliwyd yn Awstralia llynedd. *(Brynhyfryd)*
- Darperir cyfleoedd i feithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion global, ond rhoddir pwyslais priodol ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r amrywiaeth a geir

mewn diwylliannau eraill yn eu cymuned a'u gwlad hwy eu hunain ac mewn gwledydd tramor. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Elusennau ac achosion da
***7 Ysgol***

- Gwna'r disgyblion ymdrechion da i gefnogi gweithgareddau codi arian ac elusennau. *(Ysgol Borthyn )*
- Mae elusennau yn elwa o haelioni y disgyblion a'u rhieni. *(Bro Famau)*
- Maent yn cyfrannu'n dda at achosion haeddiannol. *(Pentrecelyn)*
- Mae'r disgyblion yn amlygu eu consýrn a'u cyfrifoldeb am eraill trwy gefnogi amrywiaeth da o elusennau ac achosion da , yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyng-genedlaethol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl )*
- Mae siop byrbryd yr ysgol yn codi swm sylweddol o arian bob blwyddyn i achosion da. (Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)*
- Maent yn amlygu gofal am y rhai sy'n llai ffodus na hwy eu hunain trwy'r gefnogaeth a roddant i ystod eang o elusennau a gweithgareddau codi arian a ddewisir gan Fforwm yr Ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhoi cefnogaeth i Ty Gobaith, yr Apêl Bocs Sgidiau a thrwy groesawu disgyblion o Romania i'w cartrefi.*(Brynhyfryd)*
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd codi arian ar gyfer nifer o achosion da ac yn cefnogi cymorth i elusennau rhyngwladol megis yr un a drefnodd i anfon rhoddion i Romania yn ddiweddar. *(Ysgol Mair)*
- Caiff y disgyblion eu hannog i ystyried anghenion y rhai sy'n llai ffodus na hwy eu hunain trwy gyfrannu'n hael i nifer o achosion elusennol. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Amcanion/Ethos Cyffredinol
***6 Ysgol***

- Mae'r ysgol yn lle heddychlon a diogel ac mae'r disgyblion yn hapus ynddi. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae ethos Cristnogol yr ysgol yn meithrin datblygiad moesol y disgyblion yn llwyddiannus.*(Ysgol Borthyn )*
- Ethos cadarnhaol a gofalgar yr ysgol. *(Bro Famau)*
- Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar; mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i greu awyrgylch lle mae'r disgyblion yn cael eu parchu fel unigolion. *(Brynhyfryd)*

- Ar draws ystod o weithgareddau, mae'r disgyblion yn amlygu balchder pan maent yn cynrychioli'r ysgol mewn digwyddiadau, cystadlaethau a chwaraeon lleol a chenedlaethol. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r arddangosfeydd niferus a leolir mewn gwahanol fannau yn yr adeilad yn cofnodi ymweliadau, gweithgareddau a llwyddiannau'r disgyblion. Maent yn adlewyrchu gradd ymrwymiad y disgyblion a'r athrawon i fywyd a gwerthoedd yr ysgol. *(Brynhyfryd)*
- Mae'n gymuned Gristnogol groesawus a gofalgar. *(Ysgol Mair)*
- Mae gan yr ysgol ethos cynnes a chroesawus.*(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Cyfleoedd i gydweithio/gydweithredu</u>
***6 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus trwy weithio mewn parau ac mewn grwpiau; maent yn cydweithredu ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Gall y disgyblion wrando ar gyfraniadau ei gilydd, eu gwerthfawrogi, a chymryd eu tro yn briodol.*(Ysgol Borthyn)*
- Mae'r disgyblion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. *(Pentrecelyn)*
- Mae'r disgyblion yn cydweithredu'n effeithiol yn ystod gwaith mewn parau neu grwpiau. *(Heulfre)*
- Mae llawer o'r disgyblion yn cydweithredu'n naturiol mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn cymysgu'n dda yn gymdeithasol ac yn cydweithredu'n effeithiol ar draws yr ystod oedrannau. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae'r disgyblion yn cydweithredu ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn ystod gwersi a gweithgareddau. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r disgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau, mewn grwpiau a phan maent yn chwarae rôl. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r disgyblion yn cymysgu'n dda yn gymdeithasol ac yn cydweithredu ar draws yr ystod oedran.*(Brynhyfryd)*
- Yn gyffredinol mae'r disgyblion yn chwarae ac yn gweithio'n rhwydd gyda'i gilydd. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Datblygiad cymdeithasol/Rhyngweithiad/ Medrau Rhyng-bersonol</u>
***6 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus trwy weithio mewn parau a grwpiau; maent yn

cydweithredu ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Gall y disgyblion wrando ar ei gilydd a gwerthfawrogi cyfraniadau ei gilydd a chymryd eu tro yn briodol. *(Ysgol Borthyn)*

- Mae datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda. *(Ysgol Borthyn )*
- Mae datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn dda ac fe'i nodweddir gan eu parch tuag at ei gilydd. Mae'r disgyblion yn cydweithredu'n dda yn eu gwaith a'u chwarae ac mae'r disgyblion hyn yn cefnogi'r plant iau. Maent yn gwrtais a moesgar bob amser. *(Bro Famau)*
- Mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yn dda. *(Pentrecelyn)*
- Cyfrennir ymhellach at ddatblygiad diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion wrth iddynt gymryd rhan yn gyhoeddus mewn gwasanaethau, cyngherddau, cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodau. *(Pentrecelyn)*
- Mae datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn dda. Un o brif gryfderau'r ysgol yw ei hymrwymiad i gynhwysiad cymdeithasol disgyblion o bob gallu a phob math o gefndir. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae Fforwm yr Ysgol, profiad gwaith a threfn swyddogion yr ysgol yn cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. *(Brynhyfryd)*
- Mae ymweliadau preswyl, cystadlaethau rhyng-ysgol a gweithgareddau all-gwricwlaidd eraill yn gwneud cyfraniad da i ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. *(Ysgol Mair)*

<u>Ansawdd Gwasanaethau Cydaddoli</u> ***5 Ysgol***

- Mae'r drefn gydaddoli yn rhoi cychwyn cadarnhaol i ddiwrnod ysgol y disgyblion. *(Ysgol Borthyn )*
- Mae cydaddoli yn rhan o drefn y diwrnod ac yn ystod yr amser hwn rhoddir cyfle i'r disgyblion adfyfyrio a myfyrio. Mae profiadau o'r fath yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion. *(Heulfre)*
- Mae'r gwasanaethau yn foddhaol o ran eu cynnwys a neilltuir amser digonol er mwyn i'r disgyblion gael adfyfyrio. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Maent yn Gristnogol eu cymeriad, yn cynnwys cyfranogiad gan y disgyblion ac yn effeithiol i bwrpas atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol a rhoi bri ar gyflawniad. Mae 'Rhywbeth i feddwl amdano heddiw' yn rhan o'r cyfnod cofrestru i'r rhai nad ydynt yn mynychu'r gwasanaeth yn neuadd yr ysgol. Ar ei orau,

mae'r cydaddoli yn y dosbarthiadau yn cael ei nodweddu gan gyfraniad cadarnhaol yr athrawon a chan gyfranogiad ystyrlawn y disgyblion. *(Brynhyfryd)*

- Mae cyfeiliant cerddorol a chanu swynol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r addoli. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Ansawdd perthynas
***5 Ysgol***

- Mae perthnasau yn dda. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae'r berthynas rhwng mwyafrif y disgyblion a'r oedolion yn dda.*(Pentrecelyn)*
- Mae'r disgyblion yn ymwneud yn dda gyda'i gilydd a chydag oedolion *(Heulfre)*
- Mae perthnasau'n dda ar draws yr ysgol. *(Brynhyfryd)*
- Mae perthnasau'n dda ar bob lefel. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Cyfleoedd i adfyfyrio
***5 Ysgol***

- Yn ystod y cyfnodau cydaddoli, caiff y disgyblion gyfleoedd i adfyfyrio ar faterion a'u perthnasu gyda'u bywydau hwy eu hunain. *(Ysgol Borthyn )*
- Rhoddir cyfle i'r disgyblion adfyfyrio ac ystyried materion perthynol yn ystod gwersi megis addysg grefyddol a hanes. *(Bro Famau)*
- Caniateir amser i adfyfyrio tawel a myfyrdod. *(Heulfre)*
- Mewn pynciau eraill, mae cyfleoedd ar gael i fyfyrio ar gelf, llenyddiaeth a rhyfeddodau y byd naturiol. (Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)*
- Mae'r 'Clwb Matrics' yn rhoi cyfle i'r disgyblion adfyfyrio ar eu profiadau eu hunain a phrofiadau eraill.(*Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Caniateir amser addas er mwyn i'r disgyblion allu adfyfyrio ( *Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae addysg grefyddol yn rhoi cyfle i'r disgyblion gael adfyfyrio. *(Brynhyfryd)*

Gweithgareddau/Cyfleoedd All-gwricwlaidd
***5 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau all-gwricwlaidd, gan gynnwys sesiynau pêl-droed ar ôl yr ysgol ac ar Sadyrnau. *(Bro Famau)*
- Mae gweithgareddau all-gwricwlaidd megis clybiau ar ôl ysgol ac amrywiol weithgareddau yn gysylltiedig â'r Urdd yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. *(Pentrecelyn)*
- Mae ystod da o weithgareddau all-gwricwlaidd, gan gynnwys chwaraeon, dawnsio gwerin, technoleg gwybodaeth, cerdd a chelf a chrefft yn cael ei darparu. Mae gweithgarwch o'r fath yn ymestyn ac yn cyfoethogi datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. *(Heulfre)*
- Caiff ymwybyddiaeth gymdeithasol y disgyblion ei hyrwyddo trwy gyfrwng nifer o weithgareddau megis clybiau a gweithgarwch all-gwricwlaidd. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Ar draws ystod eang o weithgareddau, mae'r disgyblion yn amlygu balchder wrth gynrychioli'r ysgol mewn digwyddiadau, cystadlaethau a chwaraeon cenedlaethol. *(Brynhyfryd)*
- Mae nifer dda o weithgareddau all-gwricwlaidd yn gwneud cyfraniad da iawn i ddatblygiad diwylliannol y disgyblion. *(Brynhyfryd)*

<u>Polisi ar Hiliaeth/ Hyrwyddo Cytgord Hiliol</u>
***5 Ysgol***

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth hiliol yn effeithiol. *(Ysgol Borthyn )*
- Caiff hiliaeth a rhagfarn eu herio yn ystod gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gwersi addysg grefyddol a chaiff yr holl ddisgyblion eu hintegreiddio'n dda i fywyd yr ysgol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae disgyblion o nifer o gefndiroedd gwahanol a diwylliannau yn cael eu hintegreiddio'n dda i fywyd yr ysgol. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth diwylliannol yn llwyddiannus. *(Ysgol Mair)*
- Mae gan yr ysgol bolisi ar gydraddoldeb hiliol. (*Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Gwybodaeth a dealltwriaeth o dda a drwg</u>
***4 Ysgol***

- Yn aml, mae'r disgyblion yn agored ac yn gyfeillgar yn eu hymateb i'w gilydd ac yn eu hymateb i oedolion. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae gan y disgyblion syniad eglur am ymddygiad a ystyrir yn dderbyniol neu'n annerbyniol. *(Heulfre)*
- Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ystyrir yn dda neu'n ddrwg. *(Brynhyfryd)*
- Mae'r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o dda a drwg. *(Ysgol Mair)*

<u>Datblygiad Moesol a Chymdeithasol/ Y Ddarpariaeth</u>
***4 Ysgol***

- Mae ethos Cristnogol yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol y disgyblion yn llwyddiannus. ( *Ysgol Borthyn)*
- Mae datblygiad moesol y disgyblion yn foddhaol. *(Pentrecelyn)*
- Gwyntyllir materion moesol yn rheolaidd yn ystod gwersi addysg grefyddol, gwersi ABI a sawl pwnc arall. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae'r disgyblion yn dysgu am faterion sy'n ymwneud â rhagfarn, onestrwydd, dewis a chyfrifoldeb. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae gwaith arddangos priodol yn atgyfnerthu datblygiad moesol y disgyblion ac yn hyrwyddo ymateb cadarnhaol i ddisgwyliadau'r ysgol o safbwynt ymddygiad da. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Datblygiad ysbrydol</u>
***4 Ysgol***

- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda. *(Ysgol Borthyn)*
- Yn ogystal, mae ethos cyffredinol yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol y disgyblion. Caiff ei hyrwyddo'n briodol, hefyd, yn ystod y gwersi hynny lle mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ystyried ac i adfyfyrio ynghylch eu gwaith eu hunain neu gyfraniadau eraill. *(Ysgol Borthyn)*
- Datblygir ymwybyddiaeth ysbrydol y disgyblion trwy gyfrwng addysg grefyddol, yn ystod y cyfnodau cydaddoli ac mewn nifer o bynciau'r cwricwlwm megis cerdd, celf a Chymraeg. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*

- Mae'r Clwb Cristnogol sy'n cael ei redeg gan ddisgyblion y chweched dosbarth hefyd yn gwneud cyfraniad da yn y cyswllt hwn.( *Brynhyfryd)*
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn foddhaol. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Datblygiad diwylliannol</u>

***4 Ysgol***

- Mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yn dda. *(Pentrecelyn)*
- Caiff datblygiad diwylliannol y disgyblion mewn perthynas â'r dimensiwn Cymreig ei hyrwyddo'n dda.. *(Heulfre)*
- Datblygir ymwybyddiaeth ddiwylliannol y disgyblion trwy gyfrwng pynciau'r cwricwlwm a thrwy weithgareddau ysgol a lleol. Mae cerdd,chwaraeon a chelf yn arbennig o gryf. Mae nifer fawr o'r disgyblion yn cymryd rhan yng nghyngerdd cerdd blynyddol yr ysgol, mewn arddangosfeydd a chwaraeon cystadleuol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae gweithgareddau diwylliannol yr ysgol a'i chysylltiadau gyda'r gymuned leol yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad diwylliannol y disgyblion. Caiff y disgyblion fudd o ymweliadau a theatr sy'n gysylltiedig â Chymraeg, Saesneg ac Astudiaethau Cyfryngol ac o deithiau maes lleol ac i fannau eraill yn gysylltiedig â daearyddiaeth a gwyddoniaeth. *(Brynhyfryd)*
- Mae nifer dda o weithgareddau all-gwricwlaidd, gan gynnwys gweithgareddau'r Urdd, chwaraeon, cyngherddau ac ymweliadau ag amgueddfeydd hefyd yn gwneud cyfraniad da i ddatblygiad diwylliannol y disgyblion. *(Brynhyfryd)*

<u>Cydymffurfiad â'r Gofynion Statudol ar gyfer Cydaddoli</u>

***3 Ysgol***

- Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol trwy ddarparu addysg grefyddol a gweithred o addoliad dyddiol. *(Bro Famau)*
- Cynhelir cyfnodau o gydaddoli trwy'r wythnos ar gyfer grwpiau blwyddyn unigol. *(Brynhyfryd)*
- Cynhelir gweithred ddyddiol o gydaddoli ar sail dosbarthiadau unigol neu'r ysgol gyfan ac mae'r trefniadau yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Cysylltiadau/ Ymwneud â'r Gymuned Leol</u>

***3 Ysgol***

- Mae’r cysylltiadau gyda’r gymuned yn dda ac mae’r disgyblion yn mynychu’r Clwb Fforwyr sef cyfarfod Ysgol Sul a gynhelir ar ôl yr ysgol ar un safle. Mae’r cyfarfod hwn yn agored i’r holl ddisgyblion.*(Bro Famau)*
- Mae cysylltiadau da gydag eglwysi lleol ac mae gweinidogion ac offeiriaid sy’n ymweld yn cyfrannu at y gwasanaethau blwyddyn a’r gwasanaethau ysgol gyfan. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae’r disgyblion yn arbennig o weithgar yn yr ysgol a’r gymuned leol, yn mentora’r disgyblion iau, yn codi arian ac yn cynrychioli’r ysgol mewn ystod eang o ddigwyddiadau yn y gymuned leol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Gyda’i gilydd, mae’r disgyblion yn cynhyrchu Papur Llafar wythnosol ar gyfer eu cymuned leol. (*Brynhyfryd)*

Cyfraniad cydaddoli i Ddatblygiad YMCD
***2 Ysgol***

- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo’n dda yn ystod y cyfnodau cydaddoli lle maent yn cael cyfleoedd i adfyfyrio am faterion a’u perthnasu gyda’u bywydau hwy eu hunain. *(Ysgol Borthyn )*
- Mae gweithred o addoliad yn rhan o drefn ddyddiol yr ysgol ac yn ystod y cyfnod hwn, caniateir amser i adfyfyrio a myfyrdod tawel. Mae profiadau o’r fath yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda. *(Heulfre)*

Ymateb disgyblion i’r ddarpariaeth YMCD
***2 Ysgol***

- Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn dda ac yn trin ei gilydd a’u hathrawon gyda pharch. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Ni all pob un o’r disgyblion ymdopi’n llwyddiannus gyda gofynion byw a chydweithio yng nghymuned yr ysgol, ond mae cefnogaeth a gwerthoedd yr ysgol yn eu hannog i ymateb yn gadarnhaol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae datblygiad moesol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo’n dda yn y cwricwlwm ac ym mywyd cyffredinol yr ysgol. *(Ysgol Mair)*

Cyfraniad AG i Ddatblygiad YMCD

***2 Ysgol***

- Mae addysg grefyddol yn gwneud cyfraniad cadarn i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion, yn rhoi cyfle iddynt adfyfyrio ar eu profiadau hwy eu hunain, i ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd ac i ddatblygu parch tuag at gredoau eraill. *(Brynhyfryd)*
- Mae medrau cymdeithasol yn datblygu'n dda ar sail digwyddiadau cymunedol ac mae'r disgyblion yn gwrtais a chyfeillgar. Maent yn croesawu ac yn siarad yn hyderus gydag ymwelwyr , gan adlewyrchu'r ymdrechion a wna'r ysgol i hyrwyddo agweddau a gwerthoedd cadarnhaol. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Cyfraniad pynciau eraill i ddatblygiad YMCD
***2 Ysgol***

- Yn ogystal, mae ethos cyffredinol yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol y disgyblion. Hefyd, mae'n cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn ystod y gwersi lle mae'r disgyblion yn cael cyfle i ystyried ac adfyfyrio, un ai am eu gwaith eu hunain neu am gyfraniadau gan eraill. *(Ysgol Borthyn)*
- Mae nifer o bynciau eraill, gan gynnwys celf, dylunio a thechnoleg, Cymraeg, gwyddoniaeth a hanes hefyd yn cyfrannu trwy gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu synnwyr chwilfrydedd trwy adfyfyrio am eu gwaith eu hunain a gwaith, bywydau a chredoau pobl eraill. *(Brynhyfryd)*

Staff/Oedolion fel Modelau Rôl
***2 Ysgol***

- Mae'r oedolion yn yr ysgol yn darparu modelau rôl da iawn. *(Bro Famau)*
- Mae'r athrawon a'r holl oedolion eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn gosod esiampl dda yn y ffordd adeiladol y maent yn gweithio gyda'r disgyblion a chyda'i gilydd i greu cymuned gadarnhaol, ofalgar a chefnogol.*(Ysgol Eglwys Mair)*

Cyfleoedd i gael gafael ar wybodaeth/Ystyried Gwerthoedd a Chredoau ***2 Ysgol***

- Yn ystod y gwersi addysg grefyddol, mae'r disgyblion yn trafod eu credoau hwy eu hunain a rhai pobl eraill ac maent yn deall

sut y mae credoau yn dylanwadu ar ffordd o fyw pobl. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*

- Mewn ystod o bynciau, gan gynnwys addysg grefyddol, ABI, daearyddiaeth a gwyddoniaeth, mae'r disgyblion yn adfyfyrio am bryderon moesol a moesegol mewn perthynas ag economeg, hiliaeth a rhagfarn. Maent yn mynegi barn yn onest ac mewn modd sensitif. *(Brynhyfryd)*

<u>Esiamplau o Cymru Gyfoes/ Y Cwricwlwm Cymreig ac AG</u>
***1 Ysgol***

- Mae gwaith arddangos priodol yn atgyfnerthu datblygiad moesol y disgyblion ac yn hyrwyddo ymateb gadarnhaol i ddisgwyliadau'r ysgol mewn perthynas ag ymddygiad da. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Cymeriad y cyfnodau Cydaddoli</u>
***1Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn gweithio'd dda gyda'i gilydd yn y dosbarthiadau. *(Pentrecelyn)*

<u>Cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain</u>
***1 Ysgol***

- Pan roddir cyfle iddynt ddatblygu annibyniaeth yn eu dysgu, mae'r disgyblion yn ymateb yn dda. *(Heulfre)*

**SYLWADAU NEGYDDOL**

<u>Y Cwricwlwm Cymreig/Y Dimensiwn Cymreig</u>
***2 Ysgol***

- Nid yw'r diwylliant Cymreig yn cael ei ddatblygu cystal. Prin yw'r arwyddion dwyieithog o gwmpas yr ysgol ac nid yw'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei gynllunio'n systematig ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm. (*Ysgol Uwchradd Y Rhyl*)

- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'r diwylliant a'r etifeddiaeth Gymreig yn llai datblygedig. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Ansawdd y cyfnodau cyd-addoliad</u>

***2 Ysgol***

- Nid yw'r amgylchedd anfoddhaol a'r acwsteg wael yn y neuadd chwaraeon yn cynorthwyo i greu ethos delfrydol ar gyfer cydaddoli. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae nifer arwyddocaol o ddosbarthiadau nad ydynt yn cyrraedd y safonau hyn. *(Brynhyfryd)*

<u>Cyfleoedd i adfyfyrio</u>
***2 Ysgol***

- Ni roddir cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion adfyfyrio ac ystyried arwyddocâd y negeseuon a gyflwynir yn yr awyrgylch defosiynol a grëir yn ystod y cyfnodau cydaddoli. *(Bro Famau)*
- Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol i drefnu gwasanaeth boreol. Nid yw'n llwyddo i greu awyrgylch defosiynol yn ystod y gwasanaethau, a phrin yw'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i adfyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau personol. *(Pentrecelyn)*

<u>Cydymffurfiad â'r Gofynion Statudol mewn perthynas â Chydaddoli</u> ***2 Ysgol***

- Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol i gynnal gwasanaeth boreol. *(Pentrecelyn)*
- Ni ddarperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cydaddoliad yn rhai o'r dosbarthiadau. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*

<u>Cynnal/Hyrwyddo Gwerthoedd/Cwrteisi/Parch</u>
***1 Ysgol***

- Mae parch y disgyblion tuag at eu hamgylchedd yn llai datblygedig a gadewir swm sylweddol o ysbwriel o gwmpas campws yr ysgol ar ôl cyfnodau egwyl. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae gan leiafrif o'r disgyblion yn CA3 a CA4 agwedd negyddol tuag at ddatblygu ymddygiad cymdeithasol da a hunan-ddisgyblaeth. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*

<u>Cymeriad y cyfnodau Cydaddoli</u>

***1 Ysgol***

- Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol i drefnu gwasanaeth boreol. Nid yw'n llwyddo i greu awyrgylch defosiynol yn ystod y gwasanaethau, a phrin yw'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i adfyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau personol. *(Pentrecelyn)*

<u>Datblygiad Ysbrydol</u>
***1 Ysgol***

- Ni wneir yn fawr o rai cyfleoedd i gyfoethogi ymwybyddiaeth ysbrydol a hunan-ymwybyddiaeth y disgyblion. *(Ysgol Eglwys Mair)*

**ADDYSG GREFYDDOL**
*Materion Allweddol*
***1 Ysgol***

*Codi safonau ……. yn y pynciau y bernir eu bod yn foddhaol( Pentrecelyn)*

<u>Safonau cyflawniad</u>
***6Ysgol***

- Mae safonau'n dda yn CA1 a CA2. *(Bro Famau)*
- Mae safonau'n foddhaol yn CA1 a CA2. *(Pentrecelyn)*
- Mae safonau cyflawniad yn dda ar draws y cyfnod allweddol. *(Heulfre)*
- Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA3 a CA4. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae safonau cyflawniad yn dda. **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA3, ac yn yr ychydig ddosbarthiadau a arsylwyd, yn dda yn CA4. *(Brynhyfryd)*
- Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA4 ac yn y chweched dosbarth. **[AC]** *(Brynhyfryd)*
- Mae safonau TGAU yn dda ac yn well na'r cyfartaledd ar gyfer yr AALl a Chymru. **[AC]** *(Brynhyfryd)*
- Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.(*Ysgol Eglwys Mair)*

- **Yn aros am yr adroddiad ar Adran 23.** *(Ysgol Mair) (Ysgol Borthyn)*

Gwybodaeth/Dealltwriaeth o Gristnogaeth
***6 Ysgol***

- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gredoau ac arferion Cristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, fel sy'n ofynnol yn ôl y maes llafur cytunedig. *(Bro Famau)*
- Mae gwybodaeth disgyblion CA1 am y prif wyliau Cristnogol yn dda ac maent yn deall pwrpas y dathliadau. *(Pentrecelyn)*
- Mae'r disgyblion yn deall arwyddocâd crefyddol y gwahanol arteffactau a gysylltir gyda Christnogaeth. Maent yn gyfarwydd â'r prif wyliau Cristnogol ac wedi cymryd rhan mewn ffug seremoni briodasol yn yr eglwys leol. Maent yn trafod y llwon a gymerir mewn cefndir eglwysig ac yn deall sut y mae priodas mewn eglwys yn wahanol i briodas suful. *(Heulfre)*
- Mae'r disgyblion yn amlygu dealltwriaeth o arwyddocâd symbolau megis colomen, eurgylch, pysgodyn, croes a channwyll sydd wedi'i goleuo, a gallant gysylltu rhai ohonynt gyda rhannau penodol o'r Beibl. *(Heulfre)*
- Mae disgyblion CA3 yn dangos bod ganddynt wybodaeth ffeithiol dda am grefyddau a gallant ysgrifennu disgrifiadau eglur o ffwythiant gwrthrychau, pobl ac ystyr perthyn. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Yn CA4, mae gwybodaeth ffeithiol a dealltwriaeth y disgyblion am y ffydd Gristnogol yn dda. **[AC]** *(Brynhyfryd)*
- Gall y disgyblion arenwi rhai o'r prif wyliau sy'n rhan o Gristnogaeth. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Gwybodaeth/Dealltwriaeth/ Cynhwysiad crefyddau ar wahân i Gristnogaeth ***6 Ysgol***

- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gredoau ac arferion y crefyddau mawr eraill, fel sy'n ofynnol gan y maes llafur cytunedig. *(Bro Famau)*

- Mae’r disgyblion wedi datblygu gwell dealltwriaeth o’r agweddau hyn oherwydd yr ymweliadau â’r ysgol gan Fynachod Bwdhaidd a rhiant sy’n Fwdhydd. *(Bro Famau)*
- Yn CA2, mae’r disgyblion yn gyfarwydd iawn ag elfennau ar grefyddau eraill ac maent yn deall bod gan bobl eraill werthoedd gwahanol y mae gofyn eu parchu. *(Pentrecelyn)*
- Gall y disgyblion ieuengaf gymharu’r defnydd a wneir o amrywiol arteffactau’r grefydd Iddewig gyda’r rhai sy’n perthyn i’r grefydd Gristnogol. *(Heulfre)*
- Ar draws y cyfnod allweddol, mae’r disgyblion yn astudio credoau crefyddol ar wahân i Gristnogaeth ac maent yn siarad yn wybodus am yr hyn sy’n debyg ac yn wahanol yn y symbolau allanol a ffordd o fyw dilynwyr crefyddau megis Hindwaeth ac Iddewiaeth. *(Heulfre)*
- Fel cyflwyniad i’r gwaith o addysgu am Hindwaeth, mae’r disgyblion yn trafod llawer o’r pethau y mae rhieni yn eu dysgu i’w plant. Maent yn deall y gred am Dduw anweledig sy’n holl-bresennol. *(Heulfre)*
- Mae disgyblion CA3 yn dangos bod ganddynt wybodaeth ffeithiol dda am grefyddau a gallant ysgrifennu eglurhad am ffwythiant gwrthrychau, pobl ac ystyr perthyn. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae gwybodaeth ffeithiol a dealltwriaeth disgyblion CA4 am Iddewiaeth yn dda. **[AC]** *(Brynhyfryd)*
- Yn CA1, mae’r disgyblion yn ymwybodol o rai o’r gwahanol grefyddau ac arferion sy’n bodoli yn eu cymuned a thu hwnt iddi. Mae ganddynt ddealltwriaeth o bwysigrwydd dathliadau yn eu bywydau hwy eu hunain ac ym mywydau pobl eraill. *(Ysgol Eglwys Mair)*
- Yn CA2, gall y disgyblion arenwi rhai o’r prif ddathliadau sy’n rhan o’r grefydd Iddewig. *(Ysgol Eglwys Mair)*
- Yn CA2, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o’r hyn sy’n bwysig mewn Iddewiaeth. Maent yn gwybod pa mor bwysig yw’r Torah i Iddewon, sut y mae’n cael ei ddarllen a beth yw ei swyddogaeth yn y synagog. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Gwybodaeth/Dealltwriaeth o gysyniadau crefyddol/Themâu
***6 Ysgol***

- Mae’r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o sut a pham y mae dilynwyr gwahanol grefyddau yn addoli, yn myfyrio ac yn dathlu eu ffydd. Maent wedi caffael gwell

dealltwriaeth o’r agweddau hyn yn sgil ymweliadau gan fynachod Bwdhaidd a rhiant sy’n Fwdhydd. *(Bro Famau)*

- Yn CA2, mae’r disgyblion yn dod i ddeall mwy am addoli ac am arwyddocâd dathliadau a defodau crefyddol. Gallant ddisgrifio prif nodweddion seremonïau crefyddol sy’n gyffredin i bob crefydd, megis geni, priodi, cyrraedd oed aeddfedrwydd a marwolaeth. *(Bro Famau)*
- Mae holl ddisgyblion CA1 yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfeillgarwch a gofal am eraill. *(Pentrecelyn)*
- Yn CA2, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth o arwyddocâd arferion a deddfau crefyddol. Maent yn gyfarwydd iawn ag elfennau ar grefyddau eraill ac yn deall bod gan bobl eraill werthoedd gwahanol y mae angen eu parchu. *(Pentrecelyn)*
- Mae gwybodaeth y disgyblion am waith arweinyddion crefyddol y byd ac am gymwynaswyr yn dda, ac maent yn ymwybodol iawn o’r angen i ofalu am eraill. *(Pentrecelyn)*
- Mae’r disgyblion yn adfyfyrio mewn dyfnder am bwrpas gwahanol fathau o deithiau a’u harwyddocâd ac yn meddwl am y newidiadau sydd wedi digwydd iddynt hwy eu hunain rhwng cyfnod eu babandod a’u cyfnod fel disgyblion ysgol. *(Heulfre)*
- Mae’r disgyblion yn trafod cyfeillgarwch a’u perthynas gyda phobl eraill a sut y mae storïau o’r Beibl yn eu cynorthwyo i wahaniaethu rhwng da a drwg. *(Heulfre)*
- Yn CA3 mae’r disgyblion llai galluog yn dangos bod ganddynt wybodaeth dda am nodweddion unigryw traddodiadau crefyddol a’r symbolau a gysylltir gyda chrefydd. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn amlygu hyfedredd wrth iddynt ad-alw gwybodaeth yn seiliedig ar eu dysgu blaenorol am faterion cymdeithasol a moesol. **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae disgyblion CA3, ar draws yr ystod gallu, yn dangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth o’r unedau gwaith a astudiwyd ganddynt, ac mae hynny’n adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytunedig. *(Brynhyfryd)*
- Gwna’r disgyblion gynnydd da yn eu gwybodaeth am sut a pham y mae credinwyr o wahanol grefyddau yn addoli, yn adfyfyrio ac yn dathlu eu ffydd. *(Brynhyfryd)*
- Mae gan y disgyblion sydd ag AAA yn CA3 wybodaeth dda am y meysydd a astudiwyd ganddynt. *(Brynhyfryd)*
- Mae disgyblion CA4 yn datblygu eu dealltwriaeth o’r modd y mae credoau ac arferion crefyddol yn trafod y cwestiynau

sy'n codi o'u profiadau ym myd natur ac o'u hymwneud â phobl eraill. *(Brynhyfryd)*

- Mae gan ddisgyblion CA4 ddealltwriaeth dda o'r awdurdod y mae credinwyr yn ei gysylltu gyda materion a thraddodiadau crefyddol. **[AC]** *(Brynhyfryd)*
- Mae gan ddisgyblion y chweched dosbarth wybodaeth a dealltwriaeth gadarn a gall y mwyafrif gymhwyso'r wybodaeth hon gyda'r cwestiynau sy'n codi o'u profiadau ym myd natur ac o'u hymwneud â phobl eraill.[AC] *(Brynhyfryd)*
- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwrpas gweddi ac yn ysgrifennu gweddïau effeithiol eu hunain. *(Ysgol Eglwys Mair)*
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn gwybod bod dathliadau'n digwydd ar adegau arbennig yn ystod bywydau pobl. *(Ysgol Eglwys Mair)*
- Mae'r disgyblion hyn yn y cyfnod allweddol wedi archwilio cysyniadau sy'n gysylltiedig ag arferion da, gan gynhyrchu gwaith sy'n dangos lefel dda o ddealltwriaeth. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Gwybodaeth/dealltwriaeth am y Beibl/Storïau Beiblaidd</u>

***4 Ysgol***

- Mewn gwersi dosbarth a gwasanaethau, mae'r disgyblion yn gwrando ar storïau o'r Beibl ac ar ystod o storïau eraill sy'n hyrwyddo agweddau gofalgar a gwerthoedd moesol da. *(Bro Famau)*
- Yn CA1, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am storïau a chymeriadau Beiblaidd. *(Pentrecelyn)*
- Mae'r disgyblion yn trafod cyfeillgarwch a pherthynas gydag eraill a sut y mae storïau o'r Beibl yn eu cynorthwyo i wahaniaethu rhwng da a drwg. *(Heulfre)*
- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am storïau o'r Beibl. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Perthynas y Cynllun Gwaith a'r Maes Llafur Cytunedig.</u>

**3 ysgol**

- Mae maes llafur y CYSAG sirol yn cael ei gyflwyno'n dda. *(Bro Famau)*
  - Mae cynnwys y Maes Llafur Sirol Sefydlog yn cael ei gyflwyno'n briodol. *(Pentrecelyn)*

- Mae'r rhaglen astudio yn cyfarfod anghenion y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Sir Ddinbych. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Cyfleoedd i drafod Materion/Teimladau/Cwestiynau Moesol
***3 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn trafod materion crefyddol a moesol yn hyderus a chydag ymwybyddiaeth gynyddol. *(Bro Famau)*
- Yn ystod trafodaethau yn CA4, mae'r disgyblion yn onest a gallant gyffredinoli a dod i farn. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Yn ystod gwersi ac yn eu gwaith ysgrifenedig yn CA4, mae'r disgyblion yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth o faterion crefyddol, moesol a chymdeithasol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Yn y topigau a astudiwyd, mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion CA4 am faterion moesol cyfredol yn datblygu'n dda. *(Brynhyfryd)*

Dim diffygion
***2 Ysgol***

- Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol. *(Heulfre)*
- Nid oes ddiffygion arwyddocaol. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Ymweliadau ag Eglwysi Lleol/Capeli/Mannau Addoliad
***2 Ysgol***

- Gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o'u hymweliadau â mannau addoliad lleol a gallant siarad yn wybodus am wahanol rannau'r adeilad. *(Bro Famau)*
- Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â'u heglwys leol. *(Heulfre)*
- Mae'r disgyblion yn deall pam y mae adeilad yr eglwys ar ffurf croes, sut y mae ffenestri gwydr lliw yn cynrychioli storïau o'r Beibl a beth yw pwrpas y fedyddfaen a'r caregl mewn seremonïau crefyddol. *(Heulfre)*

Gwybodaeth/Ymwybyddiaeth o fywydau pobl enwog
***2 Ysgol***

- Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am waith arweinyddion crefyddol y byd ac am gymwynaswyr ac

maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd gofalu am eraill. *(Pentrecelyn)*
- Mae'r disgyblion yn gwybod, er enghraifft, bod gofal a thosturi y Fam Teresa wedi'u hysbrydoli gan ei chredoau. *(Ysgol Eglwys Mair)*

Cyfleoedd/Gallu i Fynegi eu Syniadau eu hunain/Gwaith
***2 Ysgol***

- Erbyn B9, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhoi mynegiant i'w barn a'u teimladau a gallant nodi rhesymau dros gefnogi un safbwynt yn hytrach nag un arall. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Pan maent yn gweithio mewn parau neu mewn grwpiau, mae disgyblion CA4 yn onest a gallant gyffredinoli a ffurfio barn ar sail eu gwybodaeth. **[AC]** *(Brynhyfryd)*

Ansawdd/Amrywiaeth/Digonolrwydd gwaith ysgrifenedig
***2 Ysgol***

- Mae'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig da ac yn gwneud cyfeiriadau perthnasol at ffynonellau crefyddol **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae cyflwyniad y gwaith terfynol yn dda. *(Brynhyfryd)*
- Yn CA4, mae safon gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn dda. Maent yn cwblhau ystod da o dasgau ac mae'r disgyblion mwy galluog yn dadansoddi'n fedrus ac yn defnyddio'u dadansoddiadau fel sail i gyflwyno barn sy'n gytbwys. **[AC]** *(Brynhyfryd)*

Y defnydd i gydweithio/Gwaith grwp mewn gwersi AG
***2 Ysgol***

- Yn ystod y cwrs byr, mae disgyblion CA4 yn cydweithio'n dda yn y dosbarth i rannu gwybodaeth, i ddod i gasgliad ac i gyflwyno gwybodaeth. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Wrth gymryd rhan mewn gwaith parau a gwaith grwp, maent yn onest a gallant gyffredinoli a dod i farn ar sail eu gwybodaeth. *(Brynhyfryd)*

Yn gyfarwydd â thermau technegol/Geirfa
***2 Ysgol***

- Ar draws yr ystod gallu,gall disgyblion CA3 adnabod termau technegol crefyddol a gallant egluro eu hystyr yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig. *(Ysgol Uwchradd Y Rh)*
- Ar draws yr ystod gallu, mae gallu'r disgyblion i ddefnyddio geirfa briodol i drafod materion crefyddol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, yn dda. *(Brynhyfryd)*
- Yn CA4, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i feistroli ystod o eiriau, termau a delweddau sy'n eu galluogi i drafod materion crefyddol mewn ffordd ddeallus. **[AC]** *(Brynhyfryd)*

<u>Yn ymwybodol o effaith Cred ar ffordd o fyw</u>
***2 Ysgol***

- Mae disgyblion CA4 yn datblygu dealltwriaeth o pam y mae rhai pethau yn dda neu'n ddrwg a sut y mae gwerthoedd moesol yn cael eu hymgorffori mewn crefyddau. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth o sut y mae credoau crefyddol yn dylanwadu ar farn pobl am y materion hyn. **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae disgyblion CA2 wedi dod i ddeall bod credoau pobl yn effeithio ar eu bywydau. *(Ysgol Eglwys Mair)*

<u>Esiamplau o Gymru Gyfoes/ Y Cwricwlwm Cymreig ac AG</u>
***2 Ysgol***

- Yn CA1, daw'r disgyblion yn ymwybodol o fannau o ddiddordeb arbennig trwy wrando ar storïau megis stori y Santes Melangell, a'i thrafod. *(Bro Famau)*
- Trwy astudio mannau addoliad lleol, mae eu gwybodaeth am arferion crefyddol yng Nghymru yn datblygu'n dda. *(Brynhyfryd)*

<u>Datblygu medrau allweddol trwy waith AG</u>
***2 Ysgol***

- Mae traethodau chweched dosbarth y mwyafrif yn cynnwys ystyriaeth o farn arweinwyr crefyddol ynghyd â deunyddiau o ffynonellau addas eraill. Maent yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn dda. **[AC]** *(Brynhyfryd)*

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf
***2 Ysgol***

- Mae'r Adran wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae safonau cyflawniad wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. *(Brynhyfryd)*

Ansawdd perthynas
***1 Ysgol***

- Erbyn B5 a B6, mae'r disgyblion yn cyfansoddi gweddïau priodol ar gyfer achlysurol arbennig ac maent yn deall pwrpas ac ystyr gweddi. *(Pentrecelyn)*

Gallu i ofyn cwestiynau ac i ddatblygu dealltwriaeth
***1 Ysgol***

- Yn CA3, mae'r disgyblion mwy galluog yn datblygu'r gallu i ofyn cwestiynau treiddgar a gallant ychwanegu'n hyderus at eu sylwadau pan ofynnir iddynt wneud hynny. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*

Dealltwriaeth am y Gymuned ac am gyfrifoldeb am ei haelodau
***1 Ysgol***

- Mae'r disgyblion i gyd yn dangos bod ganddynt ymwybyddiaeth o bwysigrwydd perthyn i deulu a chymuned ac o'u cyfrifoldeb am y rhai sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. *(Bro Famau)*

Cymeriad y Cyfnodau Cydaddoli
***1 Ysgol***

- Yn CA1, mae'r disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth dda o fod yn ofalgar ac o bwysigrwydd eu perthynas gydag eraill. Maent wedi defnyddio stori Y Samariad Trugarog i bwysleisio pwysigrwydd cyfeillgarwch ac wedi'i rhoi mewn cyd-destun cyfoes fel y gallant uniaethu â hi. *(Ysgol Eglwys Fair)*

CA4/ Darpariaeth Dosbarthiadau Arholiad ôl 16 mewn AC
***1 Ysgol***

- Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae canlyniadau cyrsiau byrion wedi bod yn dda. Yn 2002, safodd dwy ran o dair o'r garfan arholiadau TGAU yn y cwrs byr. Cafodd y disgyblion bron i gyd raddau A*-G ac roedd y ganran a gafodd A*-C yn gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn well na'r cyfartaledd ar gyfer yr AALl. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae disgyblion CA4 yn cael cyfle i sefyll yr arholiad TGAU cwrs byr neu'r CoEA. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Ni arsylwyd unrhyw wersi chweched dosbarth yn ystod wythnos yr arolygiad. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio'n dda. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae disgyblion B11 nad ydynt yn dymuno sefyll yr arholiad TGAU cwrs byr yn sefyll yr arholiad CoEA. Yn ddiweddar, cafodd y mwyafrif raddau A-C ynddo. **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*

<u>Cyfleoedd i ddatblygu/Defnyddio Medrau Ymchwilio</u>
***1 Ysgol***

- Mae gallu disgyblion CA3 i gasglu gwybodaeth ac i'w dehongli ar gyfer gwaith prosiect ar y cyd, yn dda. *(Brynhyfryd)*

**SYLWADAU NEGYDDOL**

<u>Ansawdd/Amrywiaeth/Digonolrwydd gwaith ysgrifenedig</u>
***3 Ysgol***

- Yn CA1, nid yw'r tasgau yn ddigon heriol ac mae hyn yn effeithio ar safonau ar ddiwedd y cyfnod allweddol. *(Pentrecelyn)*
- Yn CA3, mae gwaith rhai o'r disgyblion yn gyfyngedig oherwydd nad yw'r tasgau a osodir ar eu cyfer yn ddigon heriol. *(YsgolUwchradd Y Rhyl)*
- Yn eu gwaith ysgrifenedig nid yw'r disgyblion yn ymwneud â'r materion perthnasol bob amser, a thueddant i ddisgrifio digwyddiadau. **[AC]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Nid yw'r safonau da iawn a gyflawnir yn y gwaith llafar yn cael eu hadlewyrchu yn y safonau mewn gwaith ysgrifenedig yn CA3 bob amser.*(Brynhyfryd)*
- Mae lleiafrif o ddisgyblion a myfyrwyr, yn CA4 a'r chweched dosbarth, yn cynhyrchu gwaith boddhaol; mae

ganddynt afael foddhaol ar gynnwys y maes llafur, ond mae diffyg manylder a dadansoddi ym mheth o'r gwaith, a thuedda eu harddull i fod yn un storïol. **[AC]** *(Brynhyfryd)*

Cyfleoedd i drafod Materion/Teimladau/Cwestiynau Moesol
***2 Ysgol***

- Yn CA1 a CA2 prin yw'r ymchwilio i faterion moesol ac ysbrydol. *(Pentrecelyn)*
- Yn CA4, mae'r cyfleoedd i drafod ac i adfyfyrio ar faterion cymdeithasol a moesol yn annigonol. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl )*

Y gallu i ofyn cwestiynau a datblygu dealltwriaeth
***1 Ysgol***

- Mae gallu'r disgyblion hyn i ymchwilio ac i ffurfio barn am gwestiynau mawr bywyd yn annatblygedig. *(Pentrecelyn)*

CA4/ôl-16 / Darpariaeth/Cynnwys y Rhaglen AG Statudol ***1 Ysgol***

- Ni ddarperir addysg grefyddol statudol yn y chweched dosbarth. *(Brynhyfryd)*

Dyraniad amser i AG
***1Ysgol***

- Nid yw'r amser a neilltuwyd ar gyfer y pwnc yn CA4 yn caniatáu i ofynion y Maes Llafur statudol gael eu cyflawni a chollir cyfle i adeiladu ar safonau cyflawniad yn CA3. *(Brynhyfryd)*

Dimensiwn Ysbrydol AG
***1 Ysgol***

- Mae dealltwriaeth y disgyblion o'r dimensiwn ysbrydol yn llai datblygedig na'r agweddau eraill ar y pwnc.. *(Bro Famau)*

Ymddygiad/Sylw i waith
***1 Ysgol***

- Yn CA3, mae ymddygiad siaradus lleiafrif o'r disgyblion mewn rhai gwersi yn amharu ar ddysgu gweddill y dosbarth. *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*
- Mae cyfnodau o absenoldeb hir neu absenoldebau aml yn cyfyngu ar gynnydd rhai disgyblion. **[AG]** *(Ysgol Uwchradd Y Rhyl)*